Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 344

Rhagfyr 2011

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH



# Gŵr lleol yn Grønland

Ymddangosodd rhewlifegydd Brifysgol Aberystwyth, Dr Alun Hubbard, ar y rhifyn olaf o gyfres mawr ei chanmoliaeth y BBC, Frozen Planet, a ddarlledwyd ar BBC 1 ar ddydd Mercher y 7fed o Ragfyr.

Yn y rhifyn olaf hwn fe fu i gyflwynydd y gyfres David Attenborough gyfarfod â Dr Hubbard ar silff iâ Grønland wrth iddo deithio i'r naill begwn fel y llall er mwyn archwilio beth fydd goblygiadau cynhesu byd eang ar y bobl a'r bywyd gwyllt sydd yno'n byw, ac ar weddill y blaned. Gweithiodd Dr Hubbard, sy'n ymchwilydd yn Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear y Brifysgol, yn agos gyda thîm cynhyrchu Frozen Planet ar bob agwedd o'r ffilmio yn Grønland.

Yn ystod bwrlwm y ffilmio ym mis Gorffennaf a mis Awst y llynedd, croesawodd Dr Hubbard a'i dîm ymchwil o Brifysgolion Aberystwyth ac Abertawe saith o griw ffilmio Astudiaethau Naturiol y BBC am bythefnos, yn ogystal ag amryw o ohebyddion o Sky News, y *New York Times*, a'r *Daily Mail* yng ngwersyll Melt Lake ynghanol silff iâ Grønland.

Cynorthwyodd a chyfarwyddodd Dr Hubbard dîm ffilmio'r BBC hefyd yn Store Glacier, un o'i safleoedd ymchwil eraill yng Ngrønland, lle ffilmiwyd yr olygfa syfrdanol o fynydd iâ yn toddi a welwyd yn nau rifyn cyntaf y gyfres.

Ers 2008, mae Dr Hubbard wedi bod yn cynghori ac yn helpu cynhyrchwyr Frozen Planet i ddatrys nifer o'r anawsterau gwyddonol a logistaidd sydd wedi codi wrth ffilmio mewn ardal mor ddiarffordd ac anial â Grønland. Darparodd yr hofrenyddion AS350 (a'u peilotiaid) a ddefnyddiwyd i ffilmio'r holl olygfeydd awyr cineflex syfrdanol a welir yn y gyfres. Darparodd hefyd long ymchwil iâ i'r BBC — y Gambo — a fu'n gefnogaeth i'r ffilmio a wnaed ar y môr.

Dywedodd Dr Hubbard, "Roedd yr haf diwethaf yn un llawn gwaith, a phrofodd hefyd yn straenllyd iawn weithiau, a minnau'n gorfod cydlynu amrywiol griwiau a hofrenyddion i ddarparu cefnogaeth o'r tir, yr awyr, a'r môr, ynghyd â rheoli timau gwaith ar yr iâ mewn llefydd anodd a pheryglus. Ond gwyddai pawb beth oedd eu dyletswyddau personol, a gweithiodd popeth yn berffaith — mae'n destament i waith pawb. Mae'n braf medru eistedd yn ôl nawr a mwynhau ffrwyth yr holl ymdrechion hyn — mae'r cyfan o gyfres Frozen Planet, gan gynnwys ein hymchwil yn Grønland, yn edrych yn wefreiddiol."

**Rhewlif Petermann yn encilio**

Yn ystod haf 2011 cyhoeddodd Dr Hubbard ddelweddau dramatig oedd yn dangos fod allanfa fwyaf Grønland — Rhewlif Petermann — wedi cilio 20km mewn dim ond dwy flynedd.

Mae'r ffotograffau, a dynnwyd gan Dr Hubbard ar yr un dydd ym mis Gorffennaf 2009 a 2011 yn dangos 300km cyfan y rhewlif, sydd yn cyfrif am 6% o arwynebedd silff iâ Grønland, cyn ac wedi i fynydd iâ mawr oedd yn mesur dros 200km2 ddatod oddi wrtho ym mis Awst 2010.

Ar y pryd, disgrifiodd Dr Hubbard y newid fel un "syfrdanol". "Roedd yn anhygoel i'w weld. Mae'r rhewlif yn anferthol, 20km ar led a dros 600m o drwch ac wedi'i amgylchynu gan glogwyni serth o hyd at 1000m o daldra ar bob tu iddo. Mae ei weld yn brofiad tebyg i edrych i mewn i'r Grand Canyon, sydd wedi'i lenwi â iâ, cyn edrych i mewn iddo ddwy flynedd yn ddiweddarach a gweld ei fod yn llawn o ddŵr."


Mae Dr Hubbard, sy'n gweithio gyda chefnogaeth y Cyngor Ymchwil i



Amgylcheddau Naturiol (UK), yn credu fod y craciau a'r toriadau yn y silff iâ yn dangos ei bod yn debygol o dorri ar rhyw bwynt yn y dyfodol agos.

Y mae newydd gyhoeddi erthygl yn y cyfnodolyn *Geology Today* ar Chwalfa Petermann, Atlas y Times, a stad wirioneddol iechyd silff iâ Grønland.

Yn frodor o'r Borth, ymunodd Alun Hubbard â'r Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Ebrill 2007.



**Gwefan newydd arbennig am Silff Iâ Grønland**

Mae Dr Alun Hubbard a'i gydweithwyr yng Nghanolfan Rhewlifeg Prifysgol Aberystwyth wedi sefydlu gwefan newydd arbennig i gyflwyno'r ymchwil a wneir ganddynt ar silff iâ Grønland. Darpara'r wefan www.aber.ac.uk/Grønland gyflwyniad diddorol i'r silff iâ, yr ail fàs iâ mwyaf yn y byd, sy'n cyfrif am oddeutu 11% o arwynebedd iâ y blaned.

Mae'r wefan, sy'n cynnwys lluniau rhyfeddol a ffilmiau, yn darparu mewnwelediad dramatig ar natur bywyd a gwaith yn yr amgylchedd anial hwn, a darpara wybodaeth fanwl am y tri phrif safle lle gweithia Dr Hubbard a'i dîm, sef dalgylch Rhewlif Russel ger Langerlussuag, ardal Uummannag o Orllewin Grønland, a Rhewlif Petermann yn y Gogledd Orllewin pell.

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 344 | Rhagfyr 2011

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG


## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD -** Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION -** Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER -** Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER -** Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Eirian Hughes, Lluest Fach ☎ 880 335; Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880 275; Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **IONAWR 5** a **IONAWR 6** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **IONAWR 19**

**RHAGFYR 15** Nos Iau Plygain traddodiadol yn Eglwys Sant Ioan dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn am 7.30.

**RHAGFYR 16** Nos Wener — 'Dathlu'r Nadolig', yng ngofal Alan Wynne Jones, Cymdeithas Lenyddol Y Garn yn festri'r Garn am 7.30.

**RHAGFYR 19** Nos Lun Gyrfa chwist dofednod yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch.

**RHAGFYR 21** Nos Fercher Parti Nadolig Pwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Rhydypennau yn yr ysgol, 6.30 - 8.

**RHAGFYR 22** Dydd Iau Ysgolion Ceredigion yn cau.

**RHAGFYR 22** Dydd Iau Gwasanaeth Nadolig Ysgol Gyfun Penweddig ym Methel, Aberystwyth am 10.30

**RHAGFYR 24** Nos Sadwrn Noswyl y Nadolig, gwasanaeth am 11.30 yr hwyr yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch.

**2012**

**IONAWR 9** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn agor.

**IONAWR 11** Nos Fercher Gyrfa Chwist Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor; lluniaeth ysgafn a raffl am 8.00.

**IONAWR 18** Nos Fercher Owain Schiavone: Golwg 360 a'r Gymraeg ar-lein. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30.

**IONAWR 9-13** Dyddiau Llun i Gwener Arddangosfa o luniau a dogfennau hanes Horeb yn Festri Horeb, Penrhyn-coch rhwng 2.00 a 4.00

**IONAWR 20** Nos Wener 'Dylanwadau a choronau', John Price, Machynlleth, Cymdeithas Lenyddol Y Garn yn festri'r Garn am 7.30.

**IONAWR 26** Nos Iau Noson fingo dan ofal Pwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Rhydypennau.

**IONAWR 26** Nos Iau Noson Cyflwyno Llun Bethlehem i Fethlehem ym Methlehem, Llandre am 6.00. Achlysur anffurfiol cymdeithasol. Paned a chacen a mwy.

Annwyl Gyfaill

**Dathlu 80 Mlynedd**

Mae Eglwys y Bedyddwyr Horeb, Penrhyn-coch, Aberystwyth yn dathlu 80 mlwyddiant ers agor y Festri a threfnwyd arddangosfa o luniau, dogfennau, hen raglenni, llestri, tariannau ayyb i nodi'r achlysur arbennig hwn.

Hoffem ofyn yn garedig drwy gyfrwng eich papur bro a oes gan eich darllenwyr unrhyw lun neu atgof arbennig am eu cyfnod yn Horeb. Byddem yn falch iawn o glywed ganddynt os yn bosib cyn Ionawr 1af, 2012.

Yn gywir
Judith Morris

Gweinidog Horeb, Penrhyn-coch
Berwynfa, Penrhyn-coch
Aberystwyth, SY23 3EW
23 Tachwedd 2011
berwynfa@btinternet.com 01970 820939

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr Y TINCER**

## Gwledd o Gyngerdd



Llun: Arvid Parry-Jones

Roedd 'na wledd yn y Morlan nos Sadwrn olaf Tachwedd wrth i gôr ABC berfformio 'Aberystwyth' sef gwaith gwreiddiol gan Hector Mac Donald am y tro cyntaf erioed. Ysgrifennwyd y geiriau ar gyfer y gwaith gan feirdd cysylltiedig â'r côr - sef y Prifeirdd Dafydd John Pritchard, Huw Meirion Edwards, Hywel Griffiths, Gwenallt Llwyd Ifan ac Arwel Rocet Jones, Eurig Salisbury, Iwan Bryn James, Lisa Tiplady - ac roedd y cyfanwaith yn sôn am wahanol agweddau o dre Aberystwyth ar amrywiol adegau o'r dydd a'r flwyddyn.

Dywedodd Angharad Fychan, arweinydd y côr, "Cefais fy mhlesio yn fawr iawn 'da'r perfformiad - roedd y cyfan yn wefreiddiol a diolch i'r côr am weithio mor galed - yn enwedig yn ystod yr wythnosau diwethaf"

Bu'r côr yn ffodus i gael dau unawdydd i'w cynorthwyo sef Helen Medi Williams a Barry Nudd Powell.

Codwyd dros £2,000 o bunnau at elusen Canser y Fron ac addysg Gymraeg yn y Wladfa. Y Sul canlynol fe fu'r côr yn recordio'r gwaith ar gyfer Radio Cymru - ac fe fydd modd clywed y darllediad dydd Llun 2il Ionawr am 17.45 a dydd Mawrth 3ydd Ionawr am 13.10. Aberystwyth yw'r enw gwreiddiol ar y rhaglen! Ac os nad ydych yn medru gwrando bryd hynny bydd y rhaglen ar gael ar iplayer y BBC am 7 diwrnod wedi'r darllediadau.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Tachwedd**

£25 (Rhif 263) David James, Dolhuan, Llandre
£15 (Rhif 31) Delyth Morgan, Ger-y-nant, Dolau
£10 (Rhif 98) Llio Penri, Gwyniarth, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r Tîm dosbarthu yn festri Bethlehem Llandre dydd Mercher 23ain Tachwedd.

Cysylltwch a'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Bryn Meillion, Bow Street, os am fod yn aelod. Am restr o Gyfeillion y Tincer gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

Hoffai Ceris Gruffudd ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl 'f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig ond yn cyfrannu eleni i elsuen BARA — elusen Gristnogol sy'n helpu cyn-droseddwyr.

## Clwb Strôc Aberystwyth a'r Cylch

Unwaith eto, buom yn ffodus iawn i gael diwrnod heulog braf ar Dachwedd 16eg, pan ddaeth 42 o'r aelodau ynghyd yn Llety Ceiro, Llandre, i'r Clwb Cinio misol.

Croesawyd oll yn wresog gan y Cadeirydd, Mr John Lewis Jones, ac yn enwedig y ddau aelod newydd a oedd allan gyda ni am y tro cyntaf, a'i obaith meddai oedd i bawb fwynhau prynhawn ardderchog ymysg ffrindiau.

Ar ôl eiriau agoriadol o groeso, galwodd ar Mrs Mair Roberts i ofyn gras, a hyn a wnaeth yn ddwyieithog gyda'r urddas arferol.

Tra yn mwynhau y wledd o'n blaen, aethpwyd ati i ddatgelu enwau enillwyr y clwb 500 am y mis, ynghyd â thynnu'r raffl fisol gyda llu o wobrau amrywiol i'w hennill.

Atgoffwyd pawb gan yr Ysgrifennydd Gymdeithasol, Mrs Audrey Evans, am y trefniadau gogyfer y penwythnos Twrci a Thinsel yn Llandudno ar ddiwedd y mis.

I ddod â'r prynhawn i ben, ategodd y cadeirydd ei ddiolch i holl staff Llety Ceiro am bryd o fwyd blasus dros ben, a'r gwasanaeth cyfeillgar wrth law.

## Cymdeithas Aredig Ceredigion 2012

Mae digwyddiad pwysig yn dod i Geredigion y mis Medi 2012 sef Pencampwriaeth Aredig Cymru ynghyd â Gornest y Pum Cenedl. Cynhelir y gystadleuaeth ar fferm Morfa Mawr, Llanon ddydd Gwener 21ain a dydd Sadwrn 22ain Medi. Bydd dau ddiwrnod o gystadlu - Cystadleuaeth y Pum Cenedl rhwng Cymru, Yr Alban, Lloegr, Iwerddon a Gogledd Iwerddon ar y dydd Gwener a Phencampwriaeth Aredig Cymru ar y dydd Sadwrn. Bydd tua 40 o gystadleuwyr aredig ar y diwrnod cyntaf, ac ar yr ail tua 100 gan gynnwys nifer o wahanol ddosbarthiadau aredig gan gynnwys aredig efo ceffylau.

Yn ogystal â'r aredig bydd atyniadau eraill, er enghraifft sioe hen beiriannau, pabell grefft, stondinau amaethyddol ac yn y blaen. Ar ddiwedd y cystadlu ar y prynhawn Sadwrn, fe gawn wybod pa ddau gystadleuydd fydd yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Aredig y Byd yng Nghanada yn 2013.

Fe fydd amryw o ddigwyddiadau yn ystod y misoedd nesaf i godi arian i gynnal y pencampwriaethau a chroeso i chi ymuno â ni, neu os hoffech ragor o fanylion, cysylltwch ag un o'r ysgrifenyddion.

Phyllis Harries, Meillionen, Llanddeiniol, Llanrhystud, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 5AW (01974) 202038 ebost: meillionen5aw@googlemail.com neu Mags Jones, 10 Bro Hawen, Rhydlewis, Llandysul, Ceredigion, SA44 5RF (01239) 851451 ebost: magsbrohawen@hotmail.co.uk

## Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion

Bydd Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion yn dathlu ei phen blwydd yn bump-ar-hugain oed yn Hydref 2012. I nodi'r achlysur mae'r Gymdeithas yn cynnal cystadleuaeth agored ar y testun a ganlyn:

Hanes neu atgofion am unrhyw agwedd ar amaethyddiaeth neu'r bywyd gwledig yng Ngheredigion. Er enghraifft, gall fod yn hanes fferm unigol, brid arbennig, boed yn geffylau, gwartheg, defaid neu gŵn; sioe amaethyddol, treialon cŵn defaid; pynciau megis bugeilio, aredig, cneifio, dyrnu, plygu gwrych neu arferion gwledig fel hela llwynogod neu ddal cwningod ac yn y blaen.

Telerau.
Gellir cyflwyno'r deunydd yn ysgrifenedig, deipiedig neu ar dâp, yn yr iaith Gymraeg.
Y gystadleuaeth yn agored i bawb.
Rhaid i'r cynnwys fod yn berthnasol i amaethyddiaeth yng Ngheredigion.
Ni chaniateir gwaith sydd eisoes wedi'i gyhoeddi'n genedlaethol.

POB CAIS I GYRRAEDD Y BEIRNIAD ERBYN DIWEDD AWST 2012.
FELLY MAE GAN Y SAWL SYDD AM GYSTADLU 10 MIS I GWBLHAU'R CAIS.

GWOBRAU (Lle bo teilyngdod)
1af - £100
2il - £75
3ydd - £50
4ydd - £25

Beirniad: Twm Elias Ysg
(Un a fu yn gyfrifol am sefydlu'r Gymdeithas)
Plas Tan-y-bwlch
Maentwrog
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd LL41 3YU
Rhagor o wybodaeth os dymunir oddi wrth Cledwyn Fychan (Llywydd) 01974 202560 neu Edgar Morgan (Ysgrifennydd) 01974 241636

# Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

**Gwahoddiad i gydweithio**

Lansiwyd y Gymdeithas newydd hon ar 1 Hydref 2011 yn Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yng nghwmni Alun Ffred Jones AC. Cyfeiriodd Alun Ffred at yr angen i warchod enwau hynafol ac i godi ymwybyddiaeth o'u gwerth ieithegol, hanesyddol a diwylliannol. Gwelai gyfle gwych i greu fforwm cenedlaethol i drafod ac i lefaru ag un llais cryf'.

Cafwyd cynhadledd ddifyr a'i lond o amrywiol gyfraniadau. Bu cyfle i ymaelodi â'r gymdeithas, i ddosbarthu drafft o gyfansoddiad i drafod amcanion ac i gymdeithasu.

Mae'r Gymdeithas yn awyddus iawn i fwrw gwreiddiau ar draws Cymru gyfan ac i greu cyfleoedd i bawb ymuno â'r fenter, gan gynnwys dysgwyr a'r di-Gymraeg. I'r perwyl hwn,rydym yn awyddus iawn i greu cysylltiadau byw gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau.

Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb mewn casglu a chofnodi enwau, mewn cynllunio gweithgareddau yn lleol, mewn cefnogi gwaith mewn ysgolion neu sydd am gynnig unrhyw syniadau addas eraill, i gysylltu â ni.

Gellir gwneud hynny naill ai drwy'r wefan, drwy unrhyw un o'r swyddogion neu wrth gysylltu â Rhian Parry sy'n cydlynu ar ran y Gymdeithas.

Dywedodd David Thorne, Cadeirydd y Pwyllgor Llywio:

"Eisoes, rydym wedi derbyn llawer o syniadau ardderchog am weithgareddau diddorol gan unigolion ond mae angen rhagor. Ein gobaith yw cael o leiaf un gweithgaredd ym mhob un o hen siroedd Cymru. Bydd y Gymdeithas yn cynnig cefnogaeth, canllawiau a llwyfan cenedlaethol i rannu gwybodaeth am waith lleol. Efallai eich bod chi'n gwybod am unigolion sy'n cofio enwau hen fythynnod, enwau ffriddoedd, enwau pyllau'r afonydd, enwau creigiau a'r tebyg. Gallwn ni drefnu cefnogaeth i'w cofnodi a'u gwarchod ond i chi godi'r ffôn.'

Ychwanegodd Rhian Parry, cydlynydd y pwyllgor llywio:

'Mae enwau Cymru'n rhai hynafol ac arbennig iawn ac mae mawr angen eu gwerthfawrogi a'u diogelu — a hynny ar frys. Rydym wedi hen gynefino â'r syniad o gadwraeth ym maes adeiladau a'r amgylchedd ond mae cadwraeth enwau lleoedd efallai'n syniad mwy dieithr - ond mae'n llawn mor bwysig.'

Edrychwn ymlaen yn fawr at glywed gennych:

Cysylltwch â Rhian Parry, Tŷtandderwen, Pencefn, Dolgellau, Gwynedd LL40 2ER. (01341423144)
Ewch hefyd at wefan y Gymdeithas: www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

## CYMDEITHAS LYFRAU CEREDIGION YN TROSGLWYDDO EI HASEDAU I'R CYNGOR LLYFRAU 1 RHAGFYR 2011

Wrth i'r Cyngor Llyfrau ddathlu 50 mlynedd o wasanaethu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, mae'n briodol cofio am waith arloesol y cymdeithasau lleol a roddodd fod i'r sefydliad cenedlaethol.

Un o'r cymdeithasau llyfrau amlycaf oedd Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, a fu tan yn ddiweddar yn weithgar yn cyhoeddi llyfrau gan ganolbwyntio'n bennaf ar faes llyfrau plant. Cymdeithas Lyfrau Ceredigion a fu'n gyfrifol am gyhoeddi cyfresi cyntaf Sali Mali, y cymeriad poblogaidd mewn llyfrau i blant bach.

Yn dilyn blynyddoedd o gefnogi'r diwydiant cyhoeddi, mae'r Gymdeithas wedi penderfynu dirwyn ei gweithgaredd i ben ac yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Llyfrau yn Aberystwyth (1 Rhagfyr 2011), cyhoeddwyd y bydd asedau'r Gymdeithas Lyfrau yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor Llyfrau i barhau â'r gwaith o hybu a hyrwyddo llyfrau.

"Mae Cymdeithas Lyfrau Ceredigion wedi gwneud cyfraniad pwysig yn lleol yma yng Ngheredigion, yn ogystal â chyflwyno cymeriadau poblogaidd fel Sali Mali i filoedd o blant ledled Cymru," meddai Bleddyn Huws, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Gymdeithas. "Fe ddaeth yn amlwg i ni bellach, yn dilyn gwerthu ein rhestr gyhoeddi i Wasg Gomer, y byddai'n briodol dirwyn y Gymdeithas i ben ac i gefnogi gwaith y Cyngor Llyfrau yn y maes."

Fe fydd yr arian o'r asedau'n cael ei fuddsoddi gan y Cyngor Llyfrau, a defnyddir y llog i hyrwyddo llyfrau a darllen ymysg plant ac i noddi Gwobrau Tir na n-Og ar gyfer llyfrau Cymraeg, sef y prif wobrau ar gyfer awduron llyfrau plant o Gymru.

"Ym mlwyddyn dathlu hanner canmlwyddiant y Cyngor Llyfrau rydym yn fwy ymwybodol nag erioed o gyfraniad gwerthfawr y cymdeithasau lleol yn y dyddiau cynnar," meddai Elwyn Jones, Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau. "Rydym yn ddiolchgar iawn i Gymdeithas Lyfrau Ceredigion am y rhodd ariannol hon a fydd o gymorth i ni barhau â'n gwaith yn hyrwyddo llyfrau i blant a phobl ifainc."



Elwyn Jones (blaen chwith) a Bleddyn Huws (blaen dde) yn cydlofnodi'r ddogfen i drosglwyddo asedau Cymdeithas Lyfrau Ceredigion i'r Cyngor Llyfrau. Yn y llun hefyd gwelir Delyth Fletcher a Gwilym Huws o Bwyllgor Rheoli Cymdeithas Lyfrau Ceredigion.

Annwyl ddarllenwyr,

Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi gwirfoddoli i helpu pobl ifanc am flynyddoedd lawer rywle yng Nghymru? Hoffech chi enwebu rhywun sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yn eich hardal leol? Ydych chi'n awyddus i weld rhywun yn cael ei anrhydeddu ar lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol am eu gwaith cymunedol?

Efallai felly eich bod chi'n adnabod rhywun y dylid ei h/enwebu ar gyfer Medal Goffa Syr Thomas Parry-Williams yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae enwebiadau eisoes wedi agor, ac mae angen derbyn gwybodaeth am unrhyw un sy'n gymwys erbyn diwedd Ionawr 2012.

Bu Syr T.H.Parry-Williams yn gefnogwr brwd o'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn Awst 1975, yn dilyn ei farwolaeth ychydig fisoedd ynghynt, sefydlwyd cronfa i goffáu'i gyfraniad gwerthfawr i weithgareddau'r Eisteddfod. Gweinyddir y gronfa gan Ymddiriedolaeth Syr Thomas Parry-Williams.

Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un yr hoffech eu henwebu ar gyfer Medal Syr T.H. Parry-Williams yn 2012, cysylltwch â mi ar 0845 4090 300, neu drwy ebostio gwyb@eisteddfod.org.uk. Gallwch hefyd ofyn am ffurflen enwebu drwy ysgrifennu ataf i'r cyfeiriad hwn - 40 Parc Ty Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU.

Y dyddiad cau ar gyfer pob ffurflen enwebu yw 31 Ionawr 2012, a chyflwynir y Fedal mewn seremoni arbennig ar lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg a gynhelir o 4-11 Awst. Cyhoeddir enw'r enillydd ym mis Ebrill.

Edrychaf ymlaen i dderbyn enwebiadau o bob cwr o Gymru.

Yn gywir iawn,
Elfed Roberts, Prif Weithredwr

tachwedd.indd 4 13/12/11 10:46:29



# 20 Mlynedd 'Nôl



Lisa Evans (Tylwyth teg), Gwynant Evans (Seithennyn), Llinos Taylor (Brogyn) a Sharon Evans (Taliesin). Rhai o sêr pantomeim Trefeurig eleni. Llun: Arvid Parry Jones (o Dincer Rhagfyr 1991)

## Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 24 Tachwedd o dan gadeiryddiaeth y Gynghorwraig Heulwen Morgan. Nid oedd fawr ddim i'w adrodd am y gwaith o uwchraddio rhan o ystâd Maesafallen, dim ond dweud bod y gwaith paratoadol yn mynd yn ei flaen. Adroddwyd bod toiledau'r neuadd wedi eu paentio a gobeithir medru ail gyfeirio ychydig o'r arwydd sydd ar y polyn lamp.

Llongyfarchwyd a diolchwyd i Glwb Pêl-droed Bow Street ar eu cyflwyniad o Noson Tân Gwyllt llwyddiannus eleni eto, a dymunwyd yn dda iddynt yn ystod y tymor cyfredol.

Materion a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir, y Cyng. Paul Hinge. Adroddodd ei fod yn gwasgu ar yr awdurdodau perthnasol i gwblhau yr orsaf yn Bow Street erbyn 2015 yn hytrach na 2016 fel yr ymddangosodd yn y wasg. Hefyd i gysylltu prosiect yr orsaf gyda gwelliannau i bont y rheilffordd ar ffordd Clarach ac adeiladu llwybr troed yr un pryd.

Anogodd y Cyngor i ddiolch i Tai Ceredigion am y gwaith llwyddiannus ar y llwybr troed yn Nhregerddan yn ddiweddar. Anogodd y Cyngor hefyd i roddi pwys ar yr awdurdodau perthnasol i ymladd yn erbyn toriadau yn Ysbyty Bron-glais. Arwyddodd y Cynghorwyr y ddeiseb i gadarnhau gwrthwynebiad y cyhoedd i'r toriadau.

Dywedodd hefyd fod mwy o bresenoldeb yr heddlu yn amlwg ar hyd y pentref. Cafwyd y noson dawelaf ers blynyddoedd noson Calan Gaeaf heb ddim adroddiadau am daflu wyau a fflŵr!

Cynllunio. Ceisiadau oedd eisoes wedi bod ger bron, ac a ganiatawyd gan yr Adran Gynllunio: Codi annedd ar dir Glanmorfach, Clarach; Newidiadau ac estyniadau i Fferm Elgar, Llandre.

Ceisiadau Cynllunio newydd. Dim sylwadau ar godi Neuadd Gyfarfod Gristnogol ger yr un bresennol gan Dystion Jehofa, ger Nantllan, nac ar godi estyniad deulawr a chysylltu â chefn prif dŷ yr Hen Ficerdy, Llangorwen. Doedd dim gwrthwynebiad i gais am godi amrywiaeth o gyfarpar solar ar safle Parc Glan y Môr, Clarach cyn belled na fyddent yn adlewyrchu ar y tai cyfagos.

Materion ariannol. Talwyd ad-daliad y benthyciad sef £473 am y cyfnod presennol, a'r taliad am dorri porfeydd.

Ni fydd cyfarfod yn ystod Rhagfyr oni fydd cais arbennig i'w drafod yn galw am hynny. 26 Ionawr fydd y cyfarfod nesaf pryd benderfynir ar y presept, a dosberthir cyfraniadau i geisiadau y gwahanol elusennau.

Atgoffir yr ardalwyr fod cyfarfod o PACT ar 11 Ionawr yn Neuadd Rhydypennau am 7pm.

## MADOG

### Suliau Ionawr

Madog 2.

1 Cydaddoli yn y Garn am 10
8 Bugail
15 Bugail (c)
22 Cydaddoli yn y Garn am 10
29 Cydaddoli yn y Garn am 10

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Elizabeth Royle Evans, Elonwy, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

### Buddugol

Llongyfarchiadau i Elin Wallace, Troed y Rhiw, a lwyddodd gyda dwy delynores o Dal-y-bont - Catrin Huws ac Esther Ifan, y tair o Ysgol Gyfun Penweddig, yn y gystadleuaeth i ddeuawdau a thriawdau yn yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghwm Gwendraeth yn ddiweddar.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Huw Jones sydd yn ffermio Gwarcwm ar ei lwyddiant yn ffair aeaf Llanelwedd yn adran y gwartheg;

i Gwen Davies, Llaingwyddil, ar lwyddo yn ei phrawf gyrru.

### Taith noddedig

Bu Gwilym Simms Williams, Gwarcwm yn cymryd rhan mewn taith beicio noddedig Os Mets. Cyflwynwyd swm o £201 i ward plant Ysbyty Bron-glais. Diolch i bawb am eu haelioni.

### Cyfarchion

Gobeithio caiff pawb Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd llawn iechyd a hapusrwydd. Anfonwn gyfarchion y tymor i rai o'r ardal sydd mewn cartrefi henoed ac ysbytai.


**Cronfa Eleri**
**Blwyddyn 2011 – dros £14,700 i'w rannu**
Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa
Ffurflen gais a manylion ar gael o: www.cronfaeleri.com
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
**Tel:** 01970 832551 **e-bost** ymholiadau@cronfaeleri.com
**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 13eg 2012**
Amcanion Cronfa Eleri
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*


Y TINCER




MUDIAD YSGOLION MEITHRIN
**Cylch Meithrin Rhydypennau**
Addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2½ oed. Bob Bore Llun, Mawrth a Mercher yn Ysgol Rhydypennau. 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6 sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.
**Ti a Fi Llandre**
Cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. £1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.



**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760



JONATHAN JAMES LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth



# Y BORTH

### Cydymdeimlad â teulu'r Friendship

Bu farw Kath, chwaer Freddy Pugh (y Friendship gynt). Treuliodd lawer o'i bywyd yn y Borth, ac yn Eglwys y Borth oedd hi am ei chladdu-arhosodd yr hers am funud y tu fas i'r Friendship ar ei ffordd i St Matthews. Er iddi fyw yng Nghanolbarth Lloegr roedd ei hacen Gymreig mor gryf ag erioed.

### Cerflun

Mae David Nash, y cerflunydd byd enwog, wedi cytuno i rhoi cymorth i'r Borth i arddangos darnau o'r fforest hynafol i gofnodi ei achub yn ystod y gwaith ar y Morglawdd. Os digwydd hyn, caiff y Borth ei roi ar y map o ran cerflunio arbenigol!

### Parti Pwdin!

Cafwyd Parti Pwdin yn y neuadd yn ystod Tachwedd a chodwyd £300 ar gyfer Ysgol Craig yr Wylfa. Fel rhan o'r sbort, cynhaliwyd cystadleuaeth pobi i blant, cwis, raffl a chymaint o bwdin a fynoch!

### Glanhau'r traeth

Os ewch i wefan www.borthyny-slasbeachclean.org.uk fe gewch fanylion ar sut i ymuno â chriw o wirfoddolwyr sy'n glanhau traeth y Borth ac Ynys-las. Criw o bobl leol ac ymwelwyr yw'r gwirfoddolwyr sy'n cwrdd yn aml i lanhau gwahanol rannau o'r traeth. Eu bwriad yw gwella'r amgylchedd a chael gwared â chymaint o sbwriel â phosib o'n traethau. Os ydych am ymuno â'r criw gallwch gysylltu â'r wefan neu drwy e bostio sarah@borthy-nyslasbeachclean.org.uk a chewch eich ychwanegu at eu rhestr ebostio.

### Brysiwch wella

Dymunwn wellhad buan i'r Parchg Cecilia Charles a gafodd lawdriniaeth frys yn ddiweddar.

### Meg John

Bu farw Meg ym mis Tachwedd eleni. Dyma ddarnau o deyrnged ei mab Steve iddi:-

"Cyffyrddodd Mam â llawer o galonnau ar ei thaith drwy'i bywyd- bywyd wna'th hi fwynhau i'r eithaf.

Ganwyd hi yng ngwlad y Scarlets 87 mlynedd yn ôl. Priododd Dad, Glan John (plismon y Borth) yn 1949 gan symud i fyw i Gaerfyrddin gyda Nigel a minnau yn fabis bach. Rhyw chewe mlynedd yn ddiweddarach dyrchafwyd Dad yn 1949 yn Sarjant yn y Borth ac fe lanion nhw yn y pentre yn 1963.

Taflodd Mam ei hun fewn i fywyd y pentre ac o ganlyniad, gadawodd ei hôl yn drwm ar y pentre-ôl sy'n para at heddi ac sydd yn rhan o atgofion hyfryd llawer i bentrefwr presennol.

Roedd yn godwr arian o fri- a chyfrannodd yn helaeth drwy waith dygn i godi arian at Fad Achub y Borth o'r cychwyn cynta'. Gallech glywed sŵn ysgwyd y tuniau o Bow St.! Yr un oedd ei dycnwch tuag at Sul y Cofio, Clwb Pêl-droed y Borth a Sefydliad y Merched a.y.y.b. Ond ei chariad mwyaf oedd y Carnifal. Hi heb os oedd Brenhines y Carnifal, roedd yn dwlu ar sbort y Carnifal, ein gwisgo ni. A hi ei hunan mewn bob math o ddillad dwl!

Pan yn 80 mlwydd oed cafodd lythyr gan Charles, Tywysog Cymru. Pam? Wel roedd e wedi cael shwd groeso yn tŷ ni, gorsaf yr heddlu, pan oedd yn fyfyriwr yn Aber. Mae sawl stori hapus a doniol am be ddigwyddodd yn ystod ei ymweliadau cyson e.e. Roeddwn ni gyd yn yfed te a Charles yn gwneud ffys am ein Labrador ni Gelert, wrth iddo gwtcho'r ci, neidiodd Gelert yn uchel i ddal rhyw bryfyn. Ymddiheurodd Dad, a atebodd Charles 'Don't worry, my dogs are always doing the same". 'Well well, meddai dad 'Do you have flies in Buckingham Palace as well?' Roedd mam biti tagu, a chochodd i gyd. Rwyn dal i gofio ei hwyneb hyd heddi.

Redd hi mor ddrygionus, mor falch o'i hacen (Llanelli wrth gwrs) ac mor falch o fod yn Gymraes.



Mam, a gaf i ddweud ar ran y teulu i gyd newn ni byth anghofio ti, byddi di wastod yn ein calonnau. Nos da Mam. Rwy'n dy garu'



### Neges o'r Iseldiroedd

Cafwyd neges gan Verheij Ineke, cyfnither i'r diweddar Dirk Lloyd. Roedd am ddiolch i'r Tincer am roi sylw i farwolaeth Dirk Lloyd Verheij. Meddai: "Fe wnaeth iddi wenu a chrio. Dyna Dirk i'r dim -roedd wastad yn dechrau, gwrando, ac fe fyddech yn gwrando!

Mae hefyd eisiau diolch i griw y bad achub am wasgaru ei lwch ym Mae Ceredigion. Y tro nesaf y byddaf yn ymweld â'r Borth byddwn yn taflu rhywfaint o flodau i mewn i'r Bae, Roeddym yn ei garu'n fawr ac yn gweld ei eisiau.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mared Emyr, Ffordd Clarach, ar ennill Gwobr Veronica Mills i'r perfformiwr ifanc mwyaf addawol yng Nghystadleuaeth Cerddor Ifanc Dyfed 2011 a gynhaliwyd yn Ysgol Pen-glais yn ddiweddar. Cyflwynir y wobr yn flynyddol gan Mr a Mrs Roger a Mercedes Mills, Bow Street, er cof am eu merch Veronica.

### Croeso

Croeso i Siwan Gwyndaf, Sion Jobbins a'r plant Elliw Lois (10 oed y mis yma), Gwenno Lowri (8 oed) ac Owain Mabon (5 oed) sydd wedi symud dros dro o Aberystwyth i Cân y Wawr, Capel y Morfa.




### Y Clwb Rhwyfo

Cafwyd noson hwyliog o ddawnsio Ceilidh yn y Neuadd Gymunedol ar ddydd Sadwrn 26ain. Bwriad y noson oedd codi arian tuag at brynu cwch rasio mwy newydd na'r un cyfredol. Codwyd £145.

# LLANDRE

## Merched y Wawr, Llanfihangel Genau'r-glyn

Cawsom fynd i Neuadd Rhydypennau nos Lun, 14 Tachwedd ac ymuno â Changen Rhydypennau i wrando ar sgwrs a chyngor gwerthfawr gan y Nyrs Lona Phillips.
Mae Lona yn arbenigo ar Glefyd y Siwgr a chawsom ein goleuo ar sawl mater yn ymwneud â help ar sut i reoli'r afiechyd yma gan ei fod ar gynnydd ar hyn o bryd. Diolch yn fawr i Gangen Rhydypennau am eu croeso ac i Lona Phillips.
Yn wahanol i'r arfer, byddwn yn cyfarfod yn y pnawn am 2 o'r gloch ar 19 Rhagfyr a bydd Neville Jones o Lanilar yn dod atom i roi sgwrs amserol iawn i ni ar drafod arian!!!

## Treftadaeth Llandre

Mae'r Llwybr Treftadaeth bron yn gyflawn erbyn hyn gyda naw o baneli yn eu lle yn yr hen fynwent yn ogystal â'r fynwent newydd.

## Llwybr Barddoniaeth Llandre

Mae Archdderwydd Cymru, Jim Parc Nest wedi cytuno i agor Llwybr Barddoniaeth Llandre yn swyddogol ar yr 17eg o Fai 2012. Bydd y digwyddiad yn cael ei ddathlu ymhellach gyda sawl digwyddiad yn y pentref.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Tom a Hilda Griffiths, Glyntuen, ar farwolaeth cyfnither Hilda yn Comins-coch mis diwethaf.

## Seren y sgrîn fach

Gwelwyd Gwion James,Tre Medd, ar Wedi 3 yn trafod y gamp 'rhedeg yn rhydd'. Hefyd ymddangosodd ar raglen S4C, Zanzibar.

## Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn

Cofiwch am Galendr 2012 yr Eglwys. Os hoffech gopi cysylltwch â Betty Williams, rhif ffôn : 01970 828335.

## O'r ysbyty

Da yw cael croesawu Mabel Owen, Ael-y-bryn, yn ôl i'w chartref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Carwyn a Camwy Williams, Llwyn ar golli Angharad, merch ac wyres annwyl.

Hefyd cydymdeimlwn â Gwynfor ac Eryl Evans, Y Ddôl, ar golli brawd Gwynfryn ym Mhennal. Hefyd, dymunwn wellhad buan iawn i frawd Eryl sydd wedi cael llawdriniaeth yn ysbyty Treforus ar ddechrau'r mis.

## Pen blwydd Arbennig

Cyfarchion i Joyce Corrie, Birchmead, Lôn



Dyma Mr. a Mrs. Moss Jones, ar y chwith, gyda Llywydd Sioe Amaethyddol Cymru, Mr. Dic Jones, ffrind ysgol i Moss, a'i wraig ar ôl yr Agoriad Swyddogol.

Glanfred ar ddathlu pen blwydd arbennig mis diwethaf.

## Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn

Rhagfyr 20 - Gwasanaeth carolau yn yr eglwys am 7.00 o'r gloch. Croeso i bawb.

## Banc Bro

Cafwyd Noson Nadoligaidd lwyddiannus iawn eleni yn Llandre ar nos Wener Rhagfyr 2. Roedd hi'n noson wlyb iawn ond roedd Bethlehem yn llawn i groesawu Siôn Corn. Y Cynghorydd Ray Quant oedd yn agor y noson eleni a bu'n cymell pawb i brynu ar y stondinau amrywiol. Roedd band prês o ieuenctid lleol yn creu naws hyfryd ac roedd sawr y diodydd tymhorol a'r mins peis yn creu'r teimlad bod y Nadolig wedi cyrraedd Llandre yn gynnar eleni.
Roedd y noson yn cefnogi Bâd Achub yr RNLI a gweithgareddau cymunedol lleol.
Trefnwyd noson o ffilmiau, pop a phopcorn yn Bethlehem ar nos Fawrth Tachwedd 22ain gan Rhodri Llwyd Morgan a bydd mwy i ddod yn ystod y flwyddyn.
Mae Dai England wedi derbyn gwahoddiad i fod yn Drysorydd y Banc Bro a bydd Clwb 50 yn cael ei sefydlu yn fuan. Mwy am hynny eto.
Mae'r Banc Bro hefyd yn cydweithredu gyda Treftadaeth Llandre er mwyn trefnu Agoriad Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn ar Fai 17eg 2012. Y bwriad yw cynnal penwythnos o weithgareddau i nodi'r digwyddiad.
Mae drws ar agor i unrhyw un un sydd am fod yn rhan o fwrlwm gweithgaredd y Banc Bro drwy gynnig syniadau a chynorthwyo gyda'r trefniadau a chefnogi'n gyffredinol i gysylltu gyda'r Ysgrifennydd Gwenda James, Tre Medd.

Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion i'r rhifyn nesa at Mair England, rhif ffôn: 01970 828693;
e-bost : mairllo@hotmail.co.uk .

## Ffair Aeaf, Llanelwedd

Pleser oedd gweld mai Mr Moss Jones, Goleufryn, gafodd y fraint o agor y Ffair Aeaf eleniyn Llanelwedd. Mae Moss o Gymdeithas Cyfundrefn Amaethyddol Cymru, wedi treulio dros 30 mlynedd yn gweithio er budd cwmnïau cydweithredol amaethyddol a busnesau sy'n eiddo i ffermwyr yng Nghymru.



Wynne Melville Jones a'r Cynghorydd Ray Quant yn tynnu raffl.

# PENRHYN-COCH

## Suliau Rhag - Ion

Horeb
Gweler http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php
Rhagfyr
18 2.30 Oedfa Nadolig Gweinidog
25 8.00 Cymun bore'r Nadolig

Ionawr
1 2.30 Oedfa gymun gynta'r flwyddyn Gweinidog
8 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
15 2.30 Oedfa arbennig i ddathlu pen blwydd y festri
22 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog
29 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

## Gwasanaeth Noswyl Nadolig

Nos Sadwrn Rhagfyr 24, noswyl y Nadolig cynhelir gwasanaeth yn Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch am 11.30 y.h.

## Cymdeithas y Penrhyn

Gŵr gwadd fis Tachwedd oedd Heini Gruffudd a thestun ei sgwrs oedd "Y tren i Ravensbruck'. Ynddi cawsom gipolwg ar deulu ei fam Kate Bosse-Griffiths a hanai o Wittenburg, a rhannu yn nioddefaint y teulu Iddewig o dan gyfundrefn greulon y Naziaid.

Cafodd ei fam fagwraeth ddiogel, foethus, ond bu anawsterau drwy gydol y Rhyfel a chollodd ei swydd yn Amgueddfa Berlin. Daeth i Loegr a chael swydd yn Amgueddfa'r Ashmolean, Rhydychen lle cwrddodd â J. Gwyn Griffths; priododd y ddau ym 1949 a symud i'r Rhondda i fyw. Cafodd achubiaeth. Bu'n hapus iawn yno, yn ymddiddori mewn llenyddiaeth a chymysgu a llenorion.

Yn ôl yn Yr Almaen, roedd bywyd yn anodd i'w rhieni hi, ei dau frawd, Günther a Fritz, a'i chwaer Dorothee gan fod tras Iddewig gan Käthe Bosse, eu mam. Er bod y teulu wedi gwneud pob ymdrech i ddilyn trefn Almaenig y dydd, ac yn Gristnogion yn yr Eglwys Lutheraidd yn y dref ers rhyw ddwy genhedlaeth, ar ôl ymdrech y Cadfridog Stauffenberg i saethu Hitler yng Ngorffennaf 1944, fe drodd y Natsïaid yn fwyfwy i dargedu Almaenwyr o dras Iddewig.

Y flwyddyn honno arestiwyd y pum aelod o'r teulu Bosse oedd yn dal yn Wittenberg a'u hanfon i wahanol wersylloedd ac mae sut y goroesodd brodyr a chwaer Kate Bosse-Griffiths yn destun ffilm ynddo'i hun. Goroesodd tad-cu Heini ond bu farw ychydig o flynyddoedd ar ôl y rhyfel, o dorcalon yn bennaf, yn ôl Heini.



Nid ydynt yn gwybod yn iawn hyd heddiw beth oedd achos marwolaeth ei fam-gu. Nid oedd yn hoffi sôn am yr hyn ddigwyddodd yn ystod y rhyfel ac roedd nifer o'i pherthnasau yn cario baich trwm yn dawel. Mae'n anodd credu yn ein hoes lewyrchus, gyfforddus ni y gall pethau fel hyn ddigwydd ond y neges i Heini yw bod wastad peryg o ddilyn unrhyw wleidydd yn ddi-gwestiwn i ryfel.

Sgwrs drawiadol, ddiddorol, drist.

**Rhaghysbysiad**
Noson grempog yn Horeb, Penrhyn-coch
**Nos Fawrth 21 Chwefror**
am 7.00



## Dathlu 80 mlynedd ers Agor Festri Horeb

Cynhelir arddangosfa yn festri Horeb a fydd ar agor bob prynhawn o ddydd Llun 9fed Ionawr tan 13eg rhwng 2 a 4yp. o luniau a dogfenau yn dangos amrywiol weithgareddau yng nghapel Horeb dros y blynyddoedd. Arlwyir paned o de. Diolch i drysorydd Horeb, William Howells, am gydlynu y cyfan. Brynhawn Sul y 15fed Ionawr cynhelir oedfa arbennig i ddathlu pen blwydd y festri gydag aelodau yn hel atgofion. Croeso cynnes i bawb.



Mairwen Jones, gyda gwaith brodwaith o eiddo ei mam-gu, sydd yn Arddangosfa.

## Diolch

Dymuna Alwena, Nia ac Aled, Awel-y-coed, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl, sef Thomas Owen Davies. Gwerthfawrogwyd yr ymweliadau, galwadau ffôn, cardiau a blodau. Diolchwn i bawb am eu cyfraniadau hael tuag at Gronfa Cymuned Nyrsus y Borth a Nyrsus MacMillan.

## Codi arian

Llongyfarchiadau mawr i bersonel Gwasanaeth Tan ac Achub Aberystwyth a gododd swm o £600 i Apêl Elain yn ddiweddar gan ddilyn diwrnod golchfa ceir llwyddiannus ac i Karen Roberts a Simon Barker gwblhau hanner marathon Caerdydd. Mae Apêl Elain yn apêl sydd i barhau am y flwyddyn 2011 i godi arian i bedair elusen arbennig iawn: Wallace and Gromit's Grand Appeal; Ronald McDonald House Bristol; Uned Calon Plant i Gymru ac Ambiwlans Awyr Cymru. Dyma'r bedair brif elusen fu'n gyfrifol am roi'r gofal gorau i Elain a'i rhieni Gareth a Bridget James yn ystod eu hamser yn yr ysbyty.
Yn y llun yng Ngorsaf Tân Aberystwyth, o'r chwith gwelir Jamie Rees, Wayne Thomas, Simon Barker, Bridget ac Elain James yn derbyn y siec, Karen Roberts, Mathew Roberts, Keith Evans a Arwel James.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Frances a Meilyr Howells, Ystum Taf, Caerdydd ar enedigaeth Cian Hedd ar Ragfyr 7fed; ŵyr i Glenys a William Howells, Rhyd-y-gof.

## Gwellhad buan

Dymuniadau am wellhad buan i Mrs




Yn ddiweddar trosglwyddwyd £1015 i Gronfa Tirion Lewis - arian a godwyd yn y cyngerdd a gynhaliwyd gan Horeb fis Ebrill. Yn y llun gwelir Tirion gyda'r Parchedigion Judith Morris a Peter M. Thomas. Hoffai Tirion a'r teulu ddiolch i bawb a drefnodd, a gymerodd ran ac a fynychodd y cyngerdd. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr

Lona Jones, Glanceulan, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.

## Eglwys St Ioan Penrhyn-coch

Cafwyd noson o win poeth a mins peis ar nos Sadwrn y 3ydd o Ragfyr yn Neuadd yr Eglwys, gyda rafl a stondinau yn cynnwys cynnyrch cartref Nadoligaidd

## Urdd Gwragedd Sant Ioan

Ym mis Tachwedd croesawyd Mr Iwan Dafis o'r Llyfrgell Genedlaethol yn siaradwr gwadd. Mae'n hyddysg yng ngweithiau celf Syr Kyffin Williams, a chafwyd cip ar waith Kyffin a'i hanes drwy gyfrwng delweddau gweledol. Mae Iwan yn frodor o ardal Llandudoch, ger Aberteifi, ac yn artist tirluniau talentog ei hun gyda'i waith yn cael eu harddangos mewn orielau ar hyd a lled Cymru. Gwelir ei dirluniau ar werth yn y Llyfrgell Genedlaethol yn dangos ei gariad tuag at ei gynefin. Diolchwyd iddo yn gynnes am rannu ei wybodaeth â ni mewn ffordd syml.

Ym mis Rhagfyr cafwyd noson yng nghwmni Mr Rob Parkinson o Gnwch-Coch yn siarad am ei waith a'i diddordeb o ganhwyllau dychmygol. Mae'n creu a gwerthu canhwyllau o wêr gwenyn pur ac yn eu gwerthu dros Brydain Fawr. Braf oedd cael un aelod i greu cannwyll ar y noson.

## Plaid Cymru

Nos Lun 17 Hydref cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cangen Bro Dafydd, Plaid Cymru, yn Hen Ysgol Trefeurig. Etholwyd y canlynol yn swyddogion ar gyfer 2011/12 - Cadeirydd, Dr Owen Roberts; Is-gadeirydd, William Howells; Ysgrifennydd, Richard Owen; Trysorydd, Haydn Foulkes. Diolchwyd i Dafydd Sheppard am ei waith fel Cadeirydd dros y tair blynedd diwethaf. Roedd y gangen wedi bod yn weithgar yn ymgyrchu cyn Refferendwm mis Mawrth a chyn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai, a chafwyd canlyniadau llwyddiannus yng Ngheredigion y ddau dro. Roedd y gangen hefyd yn dosbarthu taflenni'n rheolaidd ar ran y Cynghorydd Sir Dai Suter, a diolchodd ef i aelodau'r gangen am eu cefnogaeth gyson. Nodwyd y byddai 2012 yn flwyddyn brysur eto gydag ethol Arweinydd newydd i'r Blaid erbyn canol mis Mawrth ac etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai.

Yn ôl eu harfer, fe gefnogodd aelodau'r gangen Ffair y Blaid yng ngogledd Ceredigion a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, 3 Rhagfyr, yn y Morlan, Aberystwyth. Eleni fe gaed newydd wedd i'r ffair o dan arweiniad Cangen Tal-y-bont. Roedd coffi a mins peis ar gael yn y bore, a stondin gynnyrch gwlad a chartref ynghyd â stondinau gan siopwyr ac unigolion megis Siop Inc, Aberystwyth, a Siop y Bont, Bronnant. Amser cinio roedd cawl ar gael, wedi'i drefnu gan gangen Tal-y-bont. Cafwyd cefnogaeth dda gan aelodau Bro Dafydd, a diolch i bawb a gyfrannodd nwyddau neu arian, a'r rhai a fynychodd y ffair.

Nos Sadwrn, yn y Marine yn Aberystwyth cynhaliwyd cinio Nadolig blynyddol y Blaid yn yr ardal. Y gŵr gwadd oedd Jonathan Edwards, Aelod Seneddol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr ers Mai 2010. Cafwyd ganddo araith ddifyr, yn sôn am sefyllfa wleidyddol Cymru heddiw a rhai hanesion am ei brofiadau yn San Steffan. Diolch yn fawr i Mererid Jones, gynt o Ddôl Helyg, Penrhyn-coch am drefnu'r cyfan mor hwylus a di-lol.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch


Nos Iau 1af o Ragfyr fe groesawodd ein Llywydd Judith Morris bawb i'r cyfarfod a hefyd Elizabeth Evans, Swyddog Datblygu Ceredigion a Phenfro, a oedd wedi troi i mewn atom. Trafodwyd yr holl ohebiaeth a oedd wedi dod i law yn ystod y mis ac yna aeth ein Llywydd ymlaen i groesawu ein gwraig wadd, sef Susan Davies, Llandre. Paratoi at y Nadolig oedd y thema ac fe gafodd pawb gyfle i wneud addurn ar gyfer y goeden Nadolig. Roedd Susan wedi dod â'i holl addurniadau oedd hi wedi'u gwneud, ac yna aeth bawb ati i geisio gwneud yr addurn allan o ddefnyddiau o wahanol liwiau. Yr oedd pawb yn canolbwyntio i wneud ei orau ac yn wir yr oedd yn werth gweld y gwaith ar ddiwedd y noson. Diolch i Susan am gadw llygad barcud ar ein gwaith. Noson wych a phawb wedi mwynhau. Diolchwyd i Susan yn swyddogol gan Mairwen Jones ac yna cafwyd cwpanaid a thynnu rafl y mis i ddiweddu'r noson.

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Susan a Flavio, Ethel a Vera a'r teulu oll ar golli Mary Jones, 77 Brongwinau, Comins-coch. Un o blant y Penrhyn oedd Mary ac roedd yn gymeriad hoffus dros ben ac yn adnabyddus iawn, a bob amser yn driw i'r hen ardal.



Llongyfarchiadau i Dr Jeremy Davies, Glan Ceulan; bu i lawr ddechrau'r mis ym Mhalas Buckingham yn derbyn ei MBE.




Baner a roddwyd i grogi ar fur Horeb yn ddiweddar.

# BOW STREET

## Suliau Rhag - Ion

**Capel y Garn**
Gweler http://www.capelygarn.org/
10 a 5

**Rhagfyr**
18 Tecwyn Jones Bugail
25 Oedfa'r Ofalaeth

**Ionawr**
1 Elwyn Pryse
8 Gwyn Davies 10 Roger Ellis Humphreys 5.
15 Bugail (c)
22 Rhidian Griffiths
29 Bugail 10 Roger Thomas 5.

**Noddfa**
1 Uno yn y Garn am 10.00
8 Oedfa am 2.00. Gweinidog. Cymundeb.
15 Oedfa am 10.00. Gweinidog.
22 Oedfa am 2.00 Miss Delyth Morgans.
29 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30

## Clayton Cadman

Yr oeddwn yn adnabod Clayton a'i deulu er 40au'r ganrif ddiwethaf wrth imi fynd ar fy meic o Daliesin i Dal-y-bont at fy nghyfeillion Gwylfa Evans, John Watkin a Morris James. Roedd Morris a Clayton yn o'r un cyff a'r ddau yn sôn yn aml am William Thomas James y Sadler da a'i wraig Lisi, tad-cu a mam-gu Morris, a Lisi yn chwaer i fam-gu Clayton Er bod gwreiddiau Maudie y fam yn ddwfn yn y fro dod i'r pentref wnaeth Bert Cadman a chofia llawer ohonom amdano'n yrrwr bws gyda'r gorau. Nid rhyfedd i'w feibion Clayton ac Eddie ddilyn yn ôl troed eu tad.maes o law. Edmygem y tad am ddysgu'n iaith a gresyn na bai mwy o fewnfudwyr yn debyg iddo. Gan imi enwi'r brodyr Cadman nid anghofiwn y chwiorydd, June, Gloria a Jean — yr unig un oedd yn gallu bod yn yr angladd.

Ar ôl gadael ysgol a gweithio am gyfnodau gyda'i dad-cu yng nghanolfan arddio Wenfô ger Caerdydd, ac mewn pwll glo yn nyddiau'r 'Bevin Boys', dychwelodd Clayton i'w gynefin. Dechreuodd ar ei yrfa hir fel gyrrwr bws gyda'r brodyr John James a Bryn Morgan, Brynhyfryd, Penrhyn-coch (coffa da am yr hen gwmni teuluol) cyn ymuno wedyn â chwmni Crosville a'i wasanaethu'n ffyddlon hyd nes iddo ymddeol. Cynhwyswyd llun ohono yn y llyfr yn adrodd hanes y cwmni. Gwyddom am ei fawr ofal o bobol ar y bws a phriodol oedd ei alw'n yrrwr bws bonheddig.

Daethom ni fel teulu o Daliesin i 3 Tregerddan ar 29 Tachwedd 1951 (y teulu cyntaf i symud i'r tai newydd da a godwyd gan Glyn Jones a chrefftwyr y Dole), ac ymhen blwyddyn wedi i Clayton briodi Beryl cartrefodd y ddau yn rhif 14, gefn-gefn i ni. Daeth Helen a Ken i lenwi a llonni'r aelwyd ac ymhen amser ganed yr wyresau Siân Eleri a Rhian Angharad, a maes o law cafodd Clayton a Beryl gwmni'r genhedlaeth nesaf pan aned Alyssa a Ryan. Ar ôl y cyfnod hir o gyfeillgarwch a bod yn rhan o'r gymdogaeth dda roedd y ddau mor falch fod Gwenda a minnau wedi dychwelyd i fod yn eu hymyl. Roeddem ninnau'n falch o gael adnewyddu'r hen gyfeillach a chael seiadu gyda'n gilydd. Dirywiodd iechyd Beryl a bu'n mynd a dod i'r ysbyty a hithau fel ninnau yn ddiolchgar am fawr ofal Clayton ohoni. Byddwn yn parhau i gofio am y ddau fraich ym mraich o gwmpas Tregerddan. Cydymdeimlwn â Beryl a'i theulu a gyda chwiorydd Clayton, ac anfonwn ein cofion at Beryl sydd bellach ar aelwyd Helen yn 2 Eastgate, Llanboidy, Hendy-Gwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 OEJ. Diolch am gael adnabod Clayton ac am ei gael yn gyfaill hawddgar am drigain mlynedd.

Daeth y teulu, cyfoedion o Dal-y-bont, cymdogion a chyfeillion ynghyd i'r Amlosgfa fore Gwener 11eg o Dachwedd i wasanaeth o ddiolch am ei fywyd a'i lafur a arweiniwyd gan y Parchedig Wyn Rhys Morris yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. W.J.Edwards ac Elwyn Pryse. Roedd yn addas mai Maldwyn James, ŵyr arall i William Thomas James y Sadler, oedd wrth yr organ.

**W.J.**

## Pen blwydd

Dathlodd ein ffrind Eirlys Owen, Erw Lon, Maes Afallen, ei phen blwydd yn 90 oed ar 19 Tachwedd, ac wrth ei llongyfarch dymunwn iddi flynyddoedd dedwydd i fynd a dod yn ein plith. Cafodd brynhawn hyfryd yn y parti yng nghwmni'i theulu a'i ffrindiau. Gobeithio fod y cefn yn well erbyn hyn.

## Ôl Rifynnau'r Tincer

- o'r rhifyn cyntaf hyd Mai 2002 ( ambell un yn eisiau) ar gael am ddim, ffoniwch W.J. 828350.

## Merched y Wawr Rhydypennau

Yn ein cyfarfod nos Lun Tachwedd y 14eg croesawodd ein llywydd, Mair Lewis, cangen Genau;r-glyn atom. Ein gwraig wadd oedd Lona Phillips sydd yn nyrs arbenigol ar glefyd y siwgr. I'w helpu daeth Carol Evans, hithau hefyd yn nyrs arbenigol . Mi ddysgasom lawer o ffeithiau syfrdanol am y clefyd. Rhoddwyd cyngor hefyd sut i arbed ei gael a sut i leihau ei effaith. Diolchwyd iddynt gan ein llywydd, I orffen cafwyd paned wedi ei pharatoi gan Bethan a Cerys ac enillydd y raffl oedd Meinir.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Michael ac Amanda Roberts, Tŷ Capel y Garn, ar enedigaeth merch — Violet - ddechrau Tachwedd. Bu rhieni Amanda draw o Unol Daleithiau'r America yn ddiweddar i weld yr aelod newydd o'r teulu.

Llongyfarchiadau i Jonathan a Justine Thomas, gynt o Blaen Ddol, Bow Street, ar enedigaeth eu mab Elis Lloyd Thomas ar y 13eg o Fedi. Brawd i Lowri ac Ella ac ŵyr i Glenwen ac Ieuan Thomas, Maes Ceiro.

## Y Ffagl Olympaidd

Cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd y Ffagl Olympaidd yn cael ei chario trwy Bow Street ar ei thaith o Aberystwyth am Ogledd Cymru. Cyhoeddir ar ôl y Calan pwy o drigolion y Sit gaiff y fraint o'i chario.

## Diolch

Y mae Eirlys Owen 'Erw Lon', Maes Afallen, Bow Street, am ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd ym mis Tachwedd ar achlysur dathlu pen blwydd arbennig.

## Dathlu

Mae'n amlwg fod yna gryn ddathlu wedi bod yn Bow Street yn ddiweddar gyda Mrs Eirlys Owen, Erw Lon, Maes Afallen yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed, Mr Tegwyn Jones, 43 Maes Afallen, yn dathlu ei ben blwydd yn 60 oed a Mr Martyn Powell, Maes Ceiro, yn dathlu ei ben blwydd yn 50. Yr oedd Miss Rhiannon Powell yn dathlu ei phen blwydd yr un pryd ond heb fod yn agos at oedran y tri arall! Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar ohonynt a phob dymuniad da.

## Croeso

Croeso mawr i rif 38 Maes Ceiro i Rheinallt a Sarah a llongyfarchiadau mawr i Rheinallt ar ei lwyddiant yn y Sioe Ddofednod Genedlaethol yn Stoneleigh yn ddiweddar gan iddo sicrhau un wobr gyntaf ac un ail yno.



**Gofal Traed Aber**

Ceiropodydd / Podiatrydd cofrestredig H.P.C.
Triniaeth ar ewinedd a chyrn
Llawdriniaeth ar gasewinedd
Triniaeth / asesiad arbenigol ar draed diabetig
Gwadnau ac asesiad biomecanyddol

**TRINIAETH YN Y CARTREF AR GAEL**

Cysylltwch gyda Shân Jones neu Richard Ellison ar **01970 617269** am apwyntiad

Y TINCER

Lluniau i'w mwynhau — Darluniau Gwreiddiol
OrielWynMel

07968 111757
lluniau@orielwynmel.co.uk www.orielwynmel.co.uk
Llanfihangel Genau'r Glyn SY24 5BZ

# ADOLYGIADAU

**Sachaid o Limrigau**
Cyhoeddiadau Barddas
Golygydd: Tegwyn Jones
Pris:- £7.95




428 o limrigau sydd yma, y 'mesur ysgafn, cellwirus, direidus, ac weithiau amharchus' hwnnw, chwedl y golygydd. Maen nhw wedi eu dosbarthu yn wyth adran dan y penawdau Troeon Trwstan, Hi a Fo a Fe a Hi, Creaduriaid, Defosiynol, Bwyd a Diod, Anhwylderau, Y Meuryn a'r Talwrn, a Tipyn o Bopeth - yr union beth i godi calon a thynnu gwên.

Bu Tegwyn Jones yn pori'n ddiwyd ymhell ac yn agos i ddod o hyd i'r cynhaeaf yma, a chan mai fe yw beirniad Limrig y Dydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ers blynyddoedd bellach does ryfedd yn y byd bod llawer ohonyn nhw yn dod o blith y cannoedd a gyflwynwyd i'r gystadleuaeth honno. Mae enwau 118 o limrigwyr yn ymddangos gyda'u gwaith, ond mae nifer sylweddol sy'n ddienw.

Mae yma hefyd Ragymadrodd llawn gwybodaeth sy'n rhoi hanes limrigau ynghyd ag enghreifftiau cynnar iawn iawn, ac sy'n cynnwys rhai ffeithiau annisgwyl. Darllenwch y llyfr i gael gwybod rhagor. Pwy ŵyr — efalle bod limrig o'ch gwaith chi yno, yn ddienw!

Dyma ddwy limrig fach i aros pryd:
Kate Roberts, T. Llew, Harri Parri,
A Kafka, Wil Garn, Thomas Hardy —
Dwi 'di darllen y lot
Wrth smocio fy mhot,
Ond dwi eto i ddallt plot Sali Mali.


**Gwenan Gruffydd**

Mewn roced aeth Wil bach Cwmduad
Rhyw fore am drip lan i'r lleuad,
Ond er trio cyhyd
Mae'n methu o hyd
Â chofio pa iaith o'n nhw'n siarad.

**Jac Oliver**

---

**Juan y Gwanaco a cherddi eraill**
Gol: Esyllt Nest Roberts de Lewis
Cyhoeddir gan Orsedd y Wladfa, mis Hydref 2011
Pris: £6.00




'A glywsoch chi stori'r gwanaco bach Juan oedd yn byw gyda'i deulu ymhell o bob man...?'

Dyma gyfrol newydd sbon o dros hanner cant o gerddi, wedi ei hanelu'n bennaf at ddarllenwyr ifanc y Wladfa (ac ambell un ifanc ei natur!) yn ogystal â darllenwyr yn yr Hen Wlad.

Yn ogystal â Juan y Gwanaco, dewch hefyd i gyfarfod y pengwyn a'r piwma, y dulog a'r deinosor a theithio i weld olwynion Dolavon, i fwynhau dathliadau Gŵyl y Glaniad, i groesi'r paith i Droed yr Orsedd a llawer iawn mwy. Rhwng cloriau'r gyfrol hon mae cerddi doniol a cherddi dwys, rhai gyda'r geiriau'n ein deffro ac eraill yn ein swyno ac fe'u hysgrifennwyd yn bennaf ar gyfer cynulleidfa ac adroddwyr hyd at 25 mlwydd oed, sef oedran Eisteddfod yr Ifanc a gynhelir yn flynyddol yn Nyffryn Camwy.

Ceir cyfraniadau gan feirdd o'r Wladfa yn ogystal â beirdd o Gymru sy'n gyfarwydd â Phatagonia a'i phobol. Dyma gasgliad o farddoniaeth addas i ddysgwyr ac i siaradwyr Cymraeg eu darllen a'u hadrodd — a'u mwynhau!

**Elinor Bennett**
Wigley Tannau Tynion
Gwasg Gwynedd
£9.95
274t.




Mae hunangofiant a gyhoeddwyd ar gyfer y Nadolig hwn yn un y bydd ei gynnwys yn aros efo chi am amser hir wedi ichi gau ei glawr. Fel telynores adnabyddus ac fel gwraig i wleidydd, yn ogystal ag fel mam a nain, profodd Elinor Bennett Wigley hapusrwydd a llwyddiant eithriadol yn ei bywyd personol a phroffesiynol. Ond gwelwn yn y llyfr hefyd fod profiadau gwirioneddol ddirdynnol wedi dod i'w rhan hi a'i theulu a fyddai'n ddigon i lorio'r mwyafrif ohonom.

Yn ei hunangofiant Tannau Tynion — cyfrol ddiweddaraf Gwasg Gwynedd yng Nghyfres y Cewri — cawn ein tywys ganddi yn ei harddull fyrlymus ei hun o Faldwyn i Lanuwchllyn, o Aberystwyth i Lundain, o Ferthyr i'r Bontnewydd yn Arfon, ac i lwyfannau'r byd.

Mae edrych yn ôl dros fywyd Elinor yn tanio atgofion am ddigwyddiadau allweddol yn hanes Cymru, yn gyhoeddus ac yn breifat — o eira mawr 1947 a achosodd i'w thad adael y fferm ger Llanidloes, i'r frwydr ofer i geisio arbed Cwm Tryweryn pan oedd y teulu'n byw yn y tŷ a adeiladwyd gan O. M. Edwards yn Llanuwchllyn, ac Elinor yn un o'r rhai oedd yn darlledu'n anghyfreithlon dros Blaid Cymru a hithau yn ei harddegau.

Roedd bywyd diwylliannol Llanuwchllyn yn cynnig pob math o gyfleon ond yna, gyda dyfodiad teledu yn y pumdegau, dylanwadwyd yn fawr arni gan raglenni cerddorol a gyflwynid gan y telynor Osian Ellis. Roedd o'n arwr mawr iddi yn ei harddegau ac roedd hithau'n ceisio gwneud popeth o fewn ei gallu i fod cystal â fo. Bu Osian Ellis yn ei beirniadu yn yr Eisteddfod Genedlaethol sawl tro, ac yna daeth yn athro arni gan ei helpu gyda'i gyrfa yn ddiweddarach.

Efallai y bydd yn syndod deall cymaint o ddylanwad a gafodd byw yn Llundain ar fywyd merch o gefn gwlad Cymru. Yno yn 1949 y prynodd ei thad ei thelyn gyntaf iddi, a'i chludo yn ôl i Lanuwchllyn ar y trên. Yno hefyd y bu'n astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol — a chyfarfod Dafydd Wigley am y tro cyntaf! Yn Llundain y prynon nhw eu cartref cyntaf, lle bu Elinor yn chwarae gyda rhai o gerddorfeydd mwya'r byd, a hithau'n cynnal ei chyngerdd 'debut' yn Neuadd Wigmore yn 1970.

Bu raid gadael Llundain a symud yn ôl i Gymru ar ddechrau'r saithdegau pan benodwyd Dafydd yn un o reolwyr cwmni Hoover ym Merthyr. Tyfodd cariad Elinor tuag at yr ardal a'i phobl, a bu'n hapus iawn yno. Ond ar ddiwedd eu cyfnod ym Merthyr, cafodd y teulu wybod am afiechyd etifeddol eu dau fab, Alun a Geraint, a gymrodd fywydau'r ddau yn ifanc iawn. Trasiedi oedd hon a drodd fywyd y teulu â'i ben i waered.

Erbyn heddiw caiff ei hadnabod fel Elinor Bennett, ond nid felly y bu erioed! Yn dilyn ei phriodas â Dafydd Wigley, awgrymodd ei hasiant yn Llundain fod ei henw teuluol, Bennett Owen, yn rhy hir i'r byd proffesiynol — ond na ddylai chwaith gymryd enw teuluol ei gŵr! O'r dydd hwnnw ymlaen, mabwysiadodd hithau ddau bersona — Elinor Bennett y cerddor a Mrs Wigley'r wraig. Mae'r yrfa gerddorol eithriadol o lwyddiannus, a'r bywyd priodasol a theuluol, wedi cyd-fyw'n hapus am dros ddeugain mlynedd. Dros y cyfnod hwnnw dysgodd Elinor lawer iawn o delynorion ifanc — gan gynnwys Catrin Finch, ei merch-yng-nghyfraith.

Yn y llyfr hefyd cawn ei barn bendant am sawl peth yn y Gymru gyfoes — o fyd y cyfryngau i wleidyddion a gwleidyddiaeth!

Dywedodd Elinor, un o sylfaenwyr Canolfan Gerdd William Mathias yng Nghaernarfon: 'Mae ysgrifennu'r llyfr wedi bod yn broses gathartig iawn sydd wedi gwneud i mi edrych ar fywyd mewn ffordd gadarnhaol. Mae wedi f'atgoffa fod bywyd yn fraint, ar waetha'r cyfnodau anodd. Roedd mynd yn ôl yn fy nychymyg i fywydau aelodau o'm teulu yn y gorffennol yn ddifyr iawn, a daeth ton ar ôl ton o atgofion yn ôl i mi. Ar ôl misoedd o ysgrifennu ac o hel atgofion, mae hi'n amser rŵan i edrych ymlaen i'r dyfodol unwaith eto a wynebu'r her nesaf — a chael hwyl efo'r plant a'r wyrion!'



# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

## Gwellhad buan

Gwellhad buan i Mrs. Maggie Jones, Haulfryn, sydd wedi cael triniaeth law-feddygol yn ddiweddar. Ar hyn o bryd, mae yn cael gofal arbennig gan Janet Heather, ei merch a'r mab-yng-nghyfraith a Joanna a Rhian yn Brynsiriol, Llanbadarn. Dymuniadau gorau iddi dros yr ŵyl.

## Gwasanaeth Nadolig

Cynhelir gwasanaeth Nadolig y plant fore Sul, Rhagfyr 18fed, am 10 o'r gloch pan fydd y Parchg Elwyn Pryse yn bresennol. Hefyd bydd Efan Miles Williams, Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion yn ymweld. Croeso cynnes i bawb.

## Gyrfa Chwist

Cynhelir Gyrfa Chwist Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor nos Fercher y 11eg o Ionawr 2012 am 8.00pm. Yn ogystal â'r Chwist fe fydd lluniaeth ysgafn a rafflyn cael ei thynnu. Dewch yn llu i fwynhau noson ddifyr ac i gefnogi eich neuadd leol.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i ddwy o ŵyresau Mr. a Mrs. Eilir Morris, Glennydd. Heledd Watkins sydd wedi derbyn M.A. yn ddiweddar. Hefyd Angharad Watkins, ei chwaer, ei doethuriaeth Ph.D. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da hefyd i Angharad ar ei swydd newydd gyda Gwasg Prifysgol Cymru fel Golygydd Comisiynu: Iaith Gymraeg a Phynciau Cymreig. Rhaid bod tad-cu a mam-gu yn falch iawn ohonynt — eithaf reit hefyd! Pob dymuniad da i'r teulu annwyl hwn.

## Theatr y Werin

Gwelwyd drama dda "The Mayor of Casterbridge" yn y theatr yn ddiweddar. Roedd dau o'r actorion o Ben-llwyn, sef Mr. a Mrs. Richard a Barbara Hogger, Maesmelindwr. Chwaraewyd eu rhannau yn arbennig o dda. Hwyl fawr iddynt yn y dyfodol.

## Gall neb pwyntio'i fys atom ni

Mae yna ddirywiad mawr ar y Sul yng nghynulleidfaoedd ein capeli, ac nid yw capel Pen-llwyn yn eithriad. Nid yw llawer o'r ieuenctid yn mynychu gwasanaeth addoliad ac fel y byddwn yn colli y ffyddlon aelodau hŷn, does neb yn dod i lanw eu lle.

Tybed â glywsoch CD Hogiau'r Wyddfa a thybed a wnaeth y gân uchod eich cyffwrdd? Mae'r geiriau yn hynod, ac hefyd yn wirionedd siwr o fod.

**Tecel**
'D oedd neb o ni yno pan gas E'i groeshoelio,
A gall neb bwyntio'i fys ato ni,
'D oedd neb o ni yno pan gas E'i gernodio,
All neb bwyntio'i fys ato ni.
'D oedd neb o ni yno i'w fradychu 'da'r bradwr,
'D oedd neb o ni yno i'w wadu 'da'r gwadwr,
'D oedd neb o ni yno i'w dwyllo 'da'r twyllwr,
A gall neb bwyntio'i fys ato ni,

Bu rhywrai yn poeri'n Ei wyneb E' unwaith,
Ond gall neb bwyntio'i fys atom ni.
Bu rhywrai yn sarnu Ei enw E ganwaith,
Ond gall neb bwyntio'i fys ato ni.
'D oedd neb o ni yno pan waedodd Ei galon,
A drain casineb ar Ei ben yn goron,
A phawb wedi cefnu o'r deuddeg gŵr ffyddlon,
Ond gall neb pwyntio'i fys ato ni.

Ond ma' dwy fil o flynydde oddi ar hynny 'nawr,
Ymhell cyn i ni gael ein geni.
Ac fe ddigwyddws y peth yn ddicon pell
Do, do'n ddicon pell o Gymru;
Ond 'se Hwn 'n byw heddi' yng Nghymru fach,
Hen wlad y saint a'r capeli,
Gele Hwn ddim Gethsemane na chroes,
O na, fe gele Hwn 'i barchu.
Ei barchu? fe wetsot ti, Ei barchu? Wyt ti'n siwr?
O ytw, ŵy'n gwpod beth ŵy'n whilia,
Oti chi'n cretu alle ni sy'n byw heddi 'neud
Y pethe gas 'u 'neud ar Galfaria?

Na, ma' Peilat yn 'i fedd er's canrifo'dd, ffrind,
A Jiwdas wedi'i gladdu'n y nos,
A ma'r dagre a gollodd y bradwr gwan,
Wedi sychu ar ddail y rhos.
Mae Caiaffas yn un â llwch y llawr,
A Herod, 'd yw ynte ddim mwy.
Y rhain fu'n gyfrifol am wrthod y Mab,
Y rhain wnaeth y marwol glwy'...
Na, all neb bwyntio'i fys ato ni.

Clyw gyfaill, os yw Caiaffas a'i griw yn y bedd,
A Jiwdas a Pheilat yn fud,
Tra bydd dynion yn whare eu trics, bydd Mab Duw
Yn mynd i Galfaria o hyd,
Ai ni sy'n anesmwyth ein cydwybod, dwed,
Heb wpod be' sy' i 'neud â Mab Duw?
Mor hawdd golchi dwylo fel Peilat gynt,
A mynd 'mlân yn y ffars 'ma o fyw.

Abiah Roderick o **Adroddiadau'r Cysegr** (Gwasg John Penry, 1964)
Cyhoeddwyd gyda chaniatâd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg




Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Chwilio am ofal plant?
Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn
01545 574187
E-bost
cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan
http://cis.ceredigion.gov.uk

Neuadd Cyngor Ceredigion
Swyddfeydd Cyngor Sir,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

ytincer@googlemail.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

# Hir wasanaeth Postman

**Cyfieithiad o adroddiad papur newydd - yn anffodus ni nodir enw'r papur ( y Welsh Gazette efallai?) na'r dyddiad ond tebyg mai ca 1930au oedd hyn.**

**Cyflwyniad cyhoeddus**

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol y Cyngor, Trefeurig, nos Wener i wneud cyflwyniad i Mr Richard Thomas, Bow Street, ar achlysur ei ymddeoliad ar ôl deugain mlynedd o wasanaeth di-dor fel postman o Bow Street i Gwmsymlog. Yn anffodus methodd Mr Thomas a bod yn bresennol oherwydd salwch ei ferch sydd yn glaf yn Inffyrmari Aberystwyth.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr John Thomas, Trawsnant, oedd yn un o gyfoedion Mr Thomas yn Ysgol Penrhyn-coch. Cyfeiriodd y Cadeirydd at rinweddau Mr Thomas yn ei ddyddiau ysgol, sef prydlondeb, onestrwydd a ffyddlondeb. Roedd y rhain wedi bod yn rinweddau yn ei fywyd diweddar hefyd.

Cymerwyd rhan mewn rhaglen amrywiol gan y canlynol — unawdau: Alcwyn Hughes, Hilda Williams, Ifor Mason, Betty Garnett, Megan Thomas, Glenys Thomas, Miss Lilian Evans a Mr R. Garnett; unawdau piano: Miss Dora Edwards a Miss M. M. Morris. Darllenodd Miss Nansi Jones benillion a gyfansoddodd ar gyfer yr achlysur(Fe'u gwelir isod) Cafwyd areithiau gan Mr John James, Maesmeurig; Mr Tom Morgan, Cartrefle; Mr D. Jones a Mr R. Evans, Swyddfa'r Post. Bu'r cyfan yn talu teyrnged i'r gwasanaeth da a ffyddlon a roddwyd gan Mr Thomas i'r ardal yn ystod ei yrfa hir a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Cynrychiolwyd Mr Thomas gan Mrs Evans, Tanfoel, a dderbyniodd waled o bapurau arian y Drysorfa a gasglwyd gan yr holl ardal. Cyflwynwyd hwn gan Mr Josiah Richards, Penybont, yr ardalwr hynaf a oedd yn bresennol. Gwnaeth y ddau areithiau pwrpasol. Cynigiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i bawb a gymerodd ran gan Mr M.M. Morris, Siop Cwmdarren, yn cael ei eilio gan Mr Hugh Morgan. Swyddogion y pwyllgor oedd: Cadeirydd: Mr R. Evans, Swyddfa'r Post; Trysorydd: Mr John Thomas, Trawsnant; ysgrifennydd: Mr John James, Maesmeurig; casglwyr: Miss Nansi Jones, Miss Clara Jones (Cwmsymlog), Miss Gwennie Spedding, Miss Leah A. Morgan (Cwmerfyn); Mrs Gwilym Lewis, Mrs Ellen James (Salem).



Roedd rownd ddyddiol Mr Thomas fel postman yn cynnwys taith o tua pymtheng milltir ac fe amcangyfrifir iddo yn ystod deugain mlynedd gerdded dros 186,000 milltir fel rhan o'i waith. Y peth anhygoel, efallai, yw na fu iddo erioed fethu cyrraedd pen ei daith a dosbarthu y post o gofio fod y rhan hon o Sir Aberteifi yn un o'r rhai mwyaf agored sydd ar gael.

**Penillion Richard Thomas**

Gwelir heno yn Nhrefeurig
Barchi cyfaill didwyll pur
'Rhwn a gerddodd lan o'r Bow Street
I Cwmsymlog flwyddi hir.
Chwith oedd gennym bawb ei golli
Doi bob amser gyda gwên
Ond rhaid ydyw ymfoddloni'r
Brawd sy'n myned braidd yn hên.

Wedi teithio deugain mlynedd
Trwy anialwch ar ei hynt
Wedi diodde gwres, ac oerni,
Gwlaw, ag eira, rhew, a gwynt.
Ac fe ellir dweud yn groew
Heb un os nag oni-bai
Ei fod ef yn Llythyr-gludydd
O'r dechreuad heb ei fai.

Byth ni chlywid ef yn grwgnach
Fod y baich oedd ganddo'n drwm
Ond dymunol fyddau gorffwys
yn y Shanty yn y Cwm.
Byth ni chlywid ef yn cwyno
Gan 'r'un salwch fu erioed
Ond fe'i blunwyd a'r adegau
Gan rhyw gorn oedd ar ei droed.

Pan y byddau pawb yn brysur
Gyda'r llafur, gyda'r gwaith
Disgwyl Richard oedd y gweithwyr
A chaent wybod mewn un gair
Fod y towydd am gyfnewid
A bod gwlaw yn agoshau
"Brysiwch", meddai, "am yr ydlan
Bydd yn bwrw'n mhell cyn dau."

Nansi Kenny
Diolch i June Griffiths (merch Nansi Kenny) am y cerddi trwy law Erwyd Howells.

# Myfyrdod y Nadolig

Wrth ufuddhau i gais y golygydd am ychydig eiriau erbyn y Nadolig, dyma gyfoeth dishysbydd y chwedlau a dyfodd o amgylch geni'r Iesu yn fy ngoddiweddyd i o'r newydd.

Rhyfeddod biolegol geni plentyn i ddechrau,a gwybod y tyfith hwnnw'n oedolyn angerddol, daionus ac unigryw.

Y gwrthod serch hynny ar gyfleusterau elfennol i'r ferch ifanc feichiog anghennus a'i gorfodi-hi i esgor ymysg anifeiliaid.

Rhagweld mai'i wrthod eto ryw ddydd fydd tynged y plentyn bendigaid yma, ei watwar, ei erlid, ei roi o dan boenedigaeth arteithiol, a'i ddienyddio.

Y cefndir yng ngwleidyddiaeth grym Rhufain, a'i biwrocratiaeth ryngwladol yn gorfodi cofrestru pawb er mwyn codi arian drwy drethu pobloedd gormesedig ac adeiladu ymhellach orchestion ymerodraeth enbyd o dreisgar.

Gwleidyddiaeth grym yn nes adref wedyn, yng nghynddaredd Herod y cachgi o unben didostur wrth iddo weld perygl ei ddisodli o'i orsedd, a'i orchymyn dienaid i lofruddio pob mab newydd-anedig yn y cyffiniau.

Ac eto, ar waethaf popeth, y pwyslais anhygoel ar ffydd, gobaith a chariad sy yn y traddodiadau Iddewig hyn.

Ffydd y daw gwaredigaeth i Israel rhag ei gelynion, ac yn fwy cyffredinol waredigaeth y ddynolryw rhag tywyllwch dudew'r drygioni sy ar brydiau fel pe am ddifa pob gobaith. 'Y bobl a rodiasant mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr.'

Y mynnu credu, yn y syniad am dduw sy'n ymgnawdoli'n ddyn, mai cariad yn y pen draw sy'n llywodraethu. 'Y llew a drig gyda'r oen, a'r llewpart a orwedd gyda'r myn, a bachgen bychan a'u harwain hwynt'.

A'r mynnu credu, ar waethaf pob dinistr, bod gobaith sicr a pharhaus am atgyfodiad.

Wrth fyfyrio ar negeseuon arswydus, bendigedig y Nadolig, siawn na ddaw dau beth i'r brig sy'n hanfodol i'r profiad crefyddol: rhyfeddod a gostyngeiddrwydd. Ac yn sgîl rheini, fe ddaw awydd mawr iawn i benlinio, gweddio ac addoli.

**Cynog Dafis**





LLAFUR CARIAD
Dathlu 70 mlynedd Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion

AR WERTH AM £10 YN Y SIOPAU CANLYNOL:

Siop Y Bont, Bronant
Jac-do, Aberaeron
Inc, Aberystwyth
CCF -Aberystwyth, Aberteifi, Felinfach & Tregaron
Sianti, Aberaeron
Siop Llanfair Clydogau

Siop Y Smotyn Du, Llanbed
Awen Teifi, Aberteifi
Iago, Castell Newydd Emlyn
WD Lewis a'i fab, Llanbed
Wynnstay, Tregaron
Rhiannon, Tregaron
Medical Hall, Tregaron
Toriad Taclus, Llanybydder

Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
**Ffôn: 01970 820122**



**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán

01970 820149
07980 687475

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**

CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT



AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

**COFIWCH GYSYLLTU**

ytincer@googlemail.com

**M THOMAS**
**Plymwr Lleol**
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol

07968 728470
01970 820375

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol




Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

# Llyfrau newydd

Mae'r siopau llyfrau yn llawn o lawenydd. Mae yno rywbeth at bob dant. Bu'r Tincer yn pori yn rhestru gwefan Gwales a dyma ddwsin o'r llyfrau a ddaliodd ei lygad. Mae yno lawer iawn iawn yn rhagor na hyn wrth gwrs.

**I'r plant:**
*Tomi ap Gwyn*
gan Gordon Jones
Gwasg Gwynedd, £4.95





Stori Nadoligaidd hoffus i blant bach am ddyn eira. Glywsoch chi'r stori am Tomi ap Gwyn, y dyn eira bach hynod o ochr y bryn? Naddo? Naddo, wir? Wel, darllenwch yma yr hanes sy'n odli am ei daith ryfeddol i ganfod rhieni; mae'r stori hynod o wreiddiol a hwyliog, gan arlunydd go denau ac awdur go foliog!


*Jig So Odli! Odli! Rapsgaliwn*
Pris: £6.99





Cyfle i fwynhau odli gyda Rapsgaliwn! Mae Rapsgaliwn wrth ei fodd yn odli gyda'i ffrindiau. Mae'r jig-so lliwgar hwn yn cynnwys 71 o ddarnau cadarn ar gyfer plant o bob oed. Mae rapiwr gorau'r byd wrth ei fodd gyda'r jig-so newydd! Pos addysgol fydd yn siwr o blesio'r dilynwyr ifanc - anrheg ddelfrydol!

*WPS* gan Dewi Pws
Gwasg Gomer
£4.99





Cyfrol liwgar o gerddi hwyliog a doniol i blant gan Dewi Pws, Bardd Plant Cymru 2010-2011. Casgliad o 17 o gerddi gwreiddiol gan y clown geiriau, wedi'u darlunio gan Eric Heyman. Mae'n wyllt, mae'n wallgo ac mae'n llawn sbort a sbri chwerthin plant!

**I oedolion:**
*Cerddi'r Bont*
Gan Lyn Ebenezer,
Gwasg Carreg Gwalch, Pris:£7.50

Fe lifodd llawer o ddŵr yn ystod yr hanner canrif diwethaf o dan y bont a roddodd ei henw i'r Rhyd Fendigaid. Dros yr un cyfnod llifodd miliynau o eiriau drwy feddwl ac o feiro a phrosesydd geiriau un o feibion y fro hefyd, y newyddiadurwr a'r awdur Lyn Ebenezer. Glynodd rhai ohonynt wrth ei gilydd i lunio brawddegau, a ffurfiodd rhai o'r rheiny'n rigymau.


*Hoff Gerddi Natur*,
Golygydd: Bethan Mair
Gwasg Gomer,
Pris: £7.99





Casgliad o ddewis pobol Cymru o'u hoff gerddi am fyd natur, yn cynnwys trawstoriad o dros gant o gerddi sy'n diddanu, yn codi gwên ac yn anesmwytho wrth adlewyrchu tlysni a chreulondeb natur.

*Yr un hwyl a'r un wylo; cerddi gwlad Dic Jones*
Gwasg Gomer, Pris:£9.99
Detholiad o gerddi (y mwyafrif ohonynt heb eu cyhoeddi o'r blaen) gan y diweddar gyn Archdderwydd, Dic Jones. Yn ogystal â bod yn dyst i'w ddawn dweud, mae'r gyfrol hon yn ein hatgoffa hefyd taw bardd ei bobl oedd Dic yr Hendre. Cerddi cymdeithasol sydd yma - cerddi i gofio, cerddi i ddathlu, cerddi i gydymdeimlo - cerddi i bob un ohonom.





*I dynnu gwên*
Golygydd: Meleri Wyn James
Gwasg y Lolfa, Pris: £4.95

Llyfr hiwmor maint poced fydd yn anrheg Nadolig perffaith. Dyma gasgliad o ffotograffau o arwyddion yn bennaf, sy'n dangos enghreifftiau o gyfieithu i'r Gymraeg ar ei waethaf. Cyfrol fydd yn gwneud i chi gywilyddio a gwenu!


**Golygfeydd**
*Cyfrinach Llynnoedd Eryri* gan Geraint Thomas
Gwasg y Lolfa, Pris: £14.95

Llyfr dwyieithog deniadol sy'n ffrwyth llafur blwyddyn gyfan yn ymweld â holl lynnoedd Parc Cenedlaethol Eryri. Yn ogystal â'r ffotograffau bendigedig ceir hanes rhai o'r chwedlau sy'n gysylltiedig â'r llynnoedd. Mae'r awdur, Geraint Thomas, yn adnabyddus fel ffotograffydd o'r radd flaenaf, ac ef yw perchennog oriel Panorama yng Nghaernarfon.

**Ffordd o fyw**
*Bodlon*, gan Angharad Thomas.
Gwasg Gwynedd, £7.95

Llyfr byrlymus i'n dysgu ni sut i fyw'n llai gwastraffus, yn tarddu o brofiadau Angharad Tomos a'i theulu. Os ydych chi wastad â chant a mil o bethau i'w gwneud, yn dyheu am fywyd symlach i chi a'ch teulu, yn ysu am gael rhyw eiliad neu ddwy i chi'ch hunan, dyma'r union lyfr i chi.

**Hunangofiant**
*Fifty Years in Politics and the Law*, gan Arglwydd Morris o Aberafan.
Gwasg Prifysgol Cymru, Pris £24.99





Hunangofiant yr Arglwydd John Morris o Aberafan, un a fagwyd yn ardal y Tincer. Ceir yma hanes ei fagwraeth cyn dilyn ei yrfa wleidyddol yn Aelod Seneddol Plaid Lafur (1959-2001) a'i gyfnod yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru rhwng 1974 ac 1979.

**Coginio**
*Prydau Pum Peth*, gan Gareth Richards
Gwasg Gomer,
Pris: 9.99





Casgliad newydd o rysetiau dwyieithog sy'n defnyddio pum cynhwysyn, wedi'u creu gan y cogydd poblogaidd o Lanbedr Pont Steffan, Gareth Richards. Awn ar daith yn ei gwmni i flasu'r cynnyrch lleol gorau a hel atgofion am ei blentyndod a dylanwad cogyddol ei ddwy fam-gu arno.

**Nofel**
*Siarad*, gan Lleucu Roberts
Gwasg y Lolfa, Pris: £5.95

Mae'r nofel hon yn adrodd hanes teulu sydd wedi mynd i fyw eu bywydau trwy'r sgrin - sgrin deledu a chyfrifiadur - yn hytrach nag yn y byd go iawn, gan arwain at ddiweddglo dirdynnol. Nofel ar gyfer yr arddegau hwyr ac oedolion.



# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Amser prysur

Mae Peter Lord, Gelli-fach, wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar.Mae wedi bod yn ymchwilio i hanes arlunwyr gwlad cynnar a gwelwyd ef yn sgwrsio gyda Rhun ap Iorwerth ar y rhaglen deledu Pethau. Bu hefyd yn swrsio gyda Dei Tomos ar ei raglen nos Sul ynglŷn â'r arddangosfa o luniau cynnar yn Oriel Glyn y Weddw ym Mhen Llŷn. Diddorol iawn.

### Llongyfarchiadau a dymuniadau da


Llongyfarchiadau i Gethin Morgan, ŵyr Vivian a Meriel Morgan, Aber-ffrwd ar gael ei ddewis yn gapten tîm Golff Iau Clwb Ynys-las a'r Borth. Dymuniadau gorau i'w dad, Eilir, ar ei fenter ychwanegol yn agor adran o E&M Motor Factors yn Aberteifi. Hyfryd yw gweld pobl ifanc yn mentro ym myd busnes.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Gerwyn Ellis, Hywelfan, ar ei ddyweddiad â Eurgain James o Bronnant. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

# CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2012

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 1 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un**. Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!



Cofiwch mai un llythyren yw CH, DD, NG, LL, RH, TH

**AR DRAWS**

**1** Enw awdur y nofel *Pantglas* (7, 6)
**7** a **28** ar draws.
Argraffiad newydd o gerddi Waldo a gyhoeddwyd yn 2010 (4, 4)
**9** a **29**
*Byd o Beryglon: 1. Perygl ar _ _ _ _  _ _ _ _*, nofel gyffrous i ddarllenwyr 9–12 oed (4, 4)
**10** *Bachgen yn _ _ _ _*, nofel gan Morris Gleitzman (1, 3)
**12** Enw cyntaf awdur *Hen Blant Bach*, Nofel y Mis Ebrill 2011 (4)
**13** *Siôn Bach _ _ _ _ _*, cymeriad yng Nghyfres y Dyn Papur Newydd (5)
**14** Enw canol awdur y gyfrol o gerddi *Amheus o Angylion* (5)
**16** *Merch _ _ _ _*, nofel gan Sonia Edwards (4)
**20** Hanes y cymeriad lliwgar Russell Jones, _ _ _ _ _ *fy Myd* (5)
**21** Gweler **22** i lawr
**24** *Y Dewin _ _ _ _*, stori i blant gan Margaret Davies yn y gyfres Darllen Stori (4)
**26** Enw cyntaf awdur *O Dro i Dro*, casgliad o bedair dawns (5)
**27** Enw cyntaf cantores enwog, gwrthrych cyfrol gan Ilid Anne Jones (5)
**28** Gweler 7 ar draws
**29** Gweler 9 ar draws
**30** _ _ _ _ *Deuddeg*, cyfrol o hwiangerddi (4)
**32** Enw cyntaf awdur y gyfrol *Blwyddyn Fan Hyn a Fan Draw* (4)
**34** Bardd Plant Cymru 2010–2011 (4, 3, 6)

**I LAWR**

**1** Enw llawn Appy, y rheolwr pêl-droed a gyhoeddodd ei hunangofiant yn 2011 (7, 8)
**2** *Dolenni _ _ _*, casgliad o ryddiaith gan Owen Martell (3)
**3** Cyfrol gan Alan Llwyd – *Sut i Greu _ _ _ _ _* (5)
**4** Enw cyntaf arlunydd ac awdur y gyfrol *Mynyddoedd Eryri* (3)
**5** *Iaith y _ _ _ _ _ _ – Dyfyniadau Ynglŷn â'r Iaith Gymraeg* gan Gwilym Lloyd Edwards (6)
**6** Hunangofiant Sharon Morgan (5, 3, 7)
**8** Cyfenw golygydd y gyfrol *Sachaid o Limrigau* (5)
**11** Cyfrol liwgar o gerddi doniol i blant gan 34 ar draws (3)
**12** Enw cyntaf un o brif gymeriadau'r gyfrol *Dyddiadur Dripsyn* (4)
**15** Enw cyntaf awdur y gyfrol ddoniol *Pwy Faga Ddefed?* (4)
**17** *Theleri _ _ _*, hunangofiant 34 ar draws (3)
**18** *Rhag Pob _ _ _ _* – Cofiant Gwynfor Evans gan Rhys Evans (4)
**19** Enw cyntaf awdur *Bydoedd – Cofiant Cyfnod*, Llyfr y Flwyddyn 2011 (3)
**22** a **21** ar draws
Hunangofiant cantores dalentog o Lanerfyl – rhif 34 yng Nghyfres y Cewri (4, 5)
**23** Enw cyntaf awdur y gyfrol *Neb Ond Ni* – enillydd y Fedal Ryddiaith 2011 (5)
**25** Nofel ar gyfer yr arddegau ac oedolion yng Nghyfres y Dderwen gan Lleucu Roberts (6)
**26** *Rhy _ _ _* – Storïau Byrion gan Bobi Jones (3)
**28** Pedwaredd nofel Manon Steffan Ros (5)
**31** Cyfaill Jos yn *Rebels Ceir Rasio* a rhai o gyfrolau eraill cyfres Bechgyn am Byth (3)
**33** *Traed _ _ _*, nofel gan Mari Emlyn (3).

**Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion**

gwales.com
llyfrau ar-lein

50 Cyngor Llyfrau Cymru
Welsh Books Council

ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO

Anfonwch y croesair at: **Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2012. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.**

DIWRNOD Y
LLYFR
1.3.2012


CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

GWASANAETH TEIPIO
Cysylltwch â
Mrs Glenwen Morgans
Heulwen
Penrhyn-coch
Ffôn: 01970 828041
Symudol: 07515494710
Ebost: glenwen.morgans@btopenworld.com

GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
01970 828693
mairllo@hotmail.com

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
newyddion i
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ




# Yr Esgob Mesac Thomas

Tybed faint o drigolion Cwmrheidol a Chapel Bangor sy'n ymwybodol i Esgob o Awstralia gael ei eni yn y plwyf.

Ganwyd Mesac Thomas ar Fai 10 1816 yn Nhŷ Poeth, Cwmrheidol, yn fab i John ac Elizabeth Thomas. Disgrifir ei dad fel ysgolfeistr. Yn ôl y Parchg. M.H Jones, Pen-llwyn yr oedd yn un o ysgolfeistri cyntaf ysgol ddyddiol Capel Pen-llwyn cyn iddo adael i dderbyn swydd fel casglwr trethi ar ran y llywodraeth.

Mynychodd Mesac Ysgol Ramadeg Croesoswallt ac Ysgol Amwythig cyn mynd ym 1836 i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt; yna y flwyddyn ganlynol symudodd i Goleg y Drindod yn yr un ddinas; graddiodd yn B.A. ym 1840 ac M.A. ym 1843 ac ym 1863 fe gyflwynwyd iddo y radd o D.D. Ym 1839 daeth yn ysgrifennydd a sylfaenydd Cymdeithas Camden Caergrawnt (a ddaeth ym 1841 yn Gymdeithas Eglwysigol -Ecclesiological Society) a bu ganddo ddiddordeb ers hynny mewn adeiladau eglwysig.

Ar ôl cyfnodau yn gurad ym




Ddechrau 2012 cyhoeddir cyfrol newydd am Mesac Thomas yn Awstralia - *Tenant in the Cathedral: The Lord Bishop and the Count* gan Tony Vinson. Gobeithiwn gynnwys adolygiad pan dderbynir copi o'r gyfrol.

Mirmingham ac yn rheithor mewn eglwysi yn Suffolk a Swydd Warwick fe'i penodwyd ym 1851 yn ysgrifennydd cymdeithas a ofalai am eglwysi ar y Cyfandir ac yn y trefedigaethau ac ar 14 Mawrth 1863 cafodd ei benodi yn Esgob cyntaf Goulburn, New South Wales - dinas ar yr afon Hawkesbury yn ne ddwyrain y dalaith -hanner can milltir i'r gogledd ddwyrain o'r brifddinas Canberra. Ymestynnai'r esgobaeth ar y pryd o Goulburn i'r ffin â Victoria yn y de ac i'r ffin â De Awstralia i'r gorllewin. Yno gweithiodd yn galed i gryfhau esgobaeth a oedd yn wan ei gwaddol mewn ardal wasgaredig iawn ei phoblogaeth.

Pan sefydlodd Gymdeithas Eglwysig Goulburn ym 1864 cyflwynodd yr egwyddor o bwysigrwydd y stad o ddibynnu y naill ar y llall (plwyf ac esgobaeth). Cynyddodd ei gyfrifoldeb fel y tyfodd poblogaeth yr ardal. Bu'n weithgar iawn yn codi arian i adeiladu Eglwys Gadeiriol St. Saviour yn Goulburn, a gysegrwyd ar 29 Ebrill 1884. Bu cryn anghytuno rhyngddo ac un o'r Archddiaconiaid ynglŷn ag ymddiriedolwyr yr Eglwys a'i lle fel eglwys y plwyf. Aeth pethau cynddrwg fel i awdurdod yr Esgob gael ei gwestiynu a lleihaodd dylanwad yr eglwys fel canlyniad. Aeth y mater ymlaen am hir, gydag achosion llys.

Bu Mesac Thomas farw o glefyd y galon ar 15 Mawrth 1892 ac fe'i claddwyd ar dir yr Eglwys Gadeiriol. Yn ystod 1892 cyflwynodd ei weddw ei lyfrgell i'r esgobaeth.

Ym 1937, pan gyhoeddwyd cyfrol Ransome T. Wyatt The history of the diocese of Goulburn dywedir fod yr enw 'Llyfrgell Esgob Thomas' arni yn gamarweiniol erbyn hynny gan ei bod yn cynnwys llawer mwy o lyfrau na chasgliad yr Esgob. Ym 1903 ffurfiwyd Capel Coffa Esgob Thomas yn ystlys ogleddol yr Eglwys ac fe'i cysegrwyd ddydd Sul 6 Medi 1903 gan Esgob Newcastle. Pan ddathlwyd canmlwyddiant Esgobaeth Canberra a Goulburn ym 1963/4 cyhoeddwyd detholiad o'i lythyrau yn Letters from Goulburn, cyfrol sy'n rhoi i ni ddarlun o'r Esgob ac fel y bu iddo weithio i ddatblygu'r esgobaeth.

O.N. Mae fy niolch i Mrs Nancy Evans am dynnu fy sylw at fywyd a gwaith yr Esgob Mesec Thomas, ac hefyd i'n golygydd Ceris Gruffudd am roi rhagor o wybodaeth amdano.

**Dewi Davies**

Cyhoeddwyd yr erthygl gyntaf yn *y Tincer* 252 (Hydref 2002) t.13

## YSGOL PEN-LLWYN

### Arad Goch

Fe ddaeth gwaith Mari Turner o gwmni Arad Goch i ben gyda dosbarth 2 diwedd fis Tachwedd. Mae'r plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac wedi gweithio'n galed iawn.

### Plant Mewn Angen

Fe godwyd £70 tuag at goffrau Plant Mewn Angen gan y plant ar Dachwedd 18fed. Fe gafwyd cyfle i wisgo mewn spotiau neu fel arch arwr o'u dewis. Fe fwynhaodd y plant gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ymwneud â'r elusen yn ystod y dydd.

### Pantomeim

Fe gawsom ein tywys i America ac i helynt lwyth y Mandaniaid wrth i ni fynd i wylio Pantomeim Madog gan gwmni Mega. Braf oedd cael rhannu'r profiad gyda rhai o blant yr Ysgol Feithrin, Capel Bangor.

### Wythnos Gwrth Fwlio

Fe ddysgodd y plant yn union beth oedd bwlio yn ystod ein gwasanaethau a sut mae rhai plant mewn gwledydd eraill yn delio






gyda'r broblem. Roedd yn gyfle i ystyried yr hyn yw bwlio ac ystyried beth ddylai'n hadwaith fod tuag ato.

### Seren Michelin

Mi fydd yn rhaid edrych ar y broses o geisio am seren wedi gweld safon y bwyd a baratowyd ar gyfer rhieni dosbarth 2 yr wythnos yma. Rhaid dweud diolch i'n cogyddes ardderchog, Mrs Cathy Jones, am fod mor barod i helpu gyda'r fenter. Fe arweiniwyd bob grÐp yn ardderchog gan aelod o flwyddyn 6. Wedi paratoi gwahoddiadau deniadol mynd ati oedd raid i sicrhau fod pob dim ar gael cyn dechrau coginio. Roedd y plant wedi bod yn wên o glust i glust wrth dderbyn 'tips'.

### Masnach Deg

Roedd yn dda croesawu Sue Jones Davies tuag atom i gynnal gwasanaeth fasnach deg. Fe ddysgodd y plant am yr amrywiaeth o gynnyrch masnach deg sydd ar gael i'w prynu yn y siopau a sut mae hyn yn gwella ansawdd bywyd pobl sy'n gweithio'n galed i'w baratoi. (llun masnach deg)

# YSGOL RHYDYPENNAU

### Plant mewn angen

Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar y 18fed o Dachwedd. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn trefnu nifer o weithgareddau difyr er mwyn codi arian i'r elusen. Ar ddiwedd y dydd casglwyd £500. Ardderchog!

### Talebau Morrissons

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n casglu talebau Morrisons dros y misoedd diwethaf. Ar ôl llwyddo i gyfri'r cyfan gwelwyd fod dros 12,000 o dalebau wedi eu casglu. 'Rydym nawr yn y broses o drafod a phenderfynu beth i brynu.

### Gorchest!

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am ennill eu lle yng nghanolfan datblygu pêl-droed cylch Aberystwyth; Jac Griffiths ac Owen Evans (dan 9 oed) ac Andrew Fielding a Shaun Jones (dan 12 oed). Pob hwyl iddynt. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Teleri Morgan am lwyddo i ennill cystadleuaeth yng nghylchgrawn Cip yn ystod yr hydref. Campus!

### Chwaraeon

Pêl-droed a Phêl-rwyd
Mae cystadleuaeth pêl-droed a phêl-rwyd rhyng-ysgolion yn parhau ar b'nawn Gwener. Yr ymwelwyr yn ddiweddar oedd Ysgol Plas-crug. Yn anffodus, oherwydd y tywydd methwyd â chynnal y gêm bêl-rwyd ond fe gafwyd dwy gêm bêl-droed. Dyma'r canlyniadau:-
Rhydypennau A 4 — Plas-crug A 4 (Owen Evans a sgoriodd y goliau)
Rhydypennau B 4 — Plas-crug B 1 (Rhys Evans 3 a Griff Lewis a sgoriodd y goliau)

Hoci
Ar y meysydd hoci mae'r ddau dîm wedi cael tymor boddhaol hyd yn hyn. Dyma ganlyniadau diweddar:-

Rhydypennau A 7 Plas-crug A 0
Rhydypennau B 1 Plas-crug B 2
Rhyd. A 4 Ysgol Gymraeg A 2
Rhyd. B 2 Ysgol Gymraeg B 2
Rhyd. A 2 Penrhyn-coch A 1
Rhyd. B 2 Penrhyn-coch B 4

Nadolig Llawen! i holl ddarllenwyr 'Y Tincer,' oddi wrth plant a staff Ysgol Rhydypennau.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk

### Gala'r Urdd

Da iawn pawb a fu'n nofio yng ngala'r Urdd ym mhwll nofio Plas-crug yn ddiweddar. Gala i holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd nofwyr safonol yn cystadlu. Llongyfarchiadau mawr i Lewis Drakeley a lwyddodd i ennill Ras Cymysg Unigol i Fechgyn dan 12 oed. Mi fydd Lewis nawr yn cynrychioli'r Sir yng ngala cenedlaethol Yr Urdd lawr yn Y Brifddinas yn y flwyddyn newydd. Ardderchog!

### Ffarwelio

Yn anffodus, ar ddiwedd mis Tachwedd, bu'n rhaid ffarwelio â Miss Gemma Bell. Bu Gemma'n gweithio gyda Mrs Sue Davies yn y cylch meithrin ac hefyd ym mlwyddyn 2 gyda Miss Olwen Morus fel rhan o'i hyfforddiant i fod yn Weithwraig Cynnal Dysgu. Hoffai'r ysgol ddiolch i Gemma am ei hymroddiad gyda'r plant a'r staff tra yn yr ysgol a phob hwyl iddi yn y dyfodol.


Bwrlwm Diwrnod Plant Mewn Angen.


Ffarwelio gyda Miss Gemma Bell.


Llongyfarchiadau i Jac Griffiths ac Owen Evans.


Llongyfarchiadau i Teleri Morgan.


Llongyfarchiadau i Lewis Drakeley.


Llongyfarchiadau i Andrew Fielding a Shaun Jones.

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Only Kids Aloud

Llongyfarchiadau i ddau o ddisgyblion yr ysgol sef Sion Wyn Hurford a Zoe Evans. Yn ddiweddar bu'r ddau mewn gwrandawiad ar gyfer y grŵp "Only Kids Aloud." Grŵp ydy hwn o ddisgyblion ysgol ar draws Cymru a fydd yn dod at ei gilydd yn rheolaidd i baratoi ar gyfer perfformiad arbennig yng Nghaerdydd ym mis Ebrill. Byddant yn cwrdd yn rheolaidd ar benwythnosau o fewn Ceredigion ac yna dod at ei gilydd. Arweinydd y grŵp fydd Tim Rhys- Evans sy'n enwog gyda'i waith gyda Only Men Aloud. Llogyfarchiadau i'r ddau ac edrychwn ymlaen i glywed yr holl hanes yn y flwyddyn newydd.

## Comenius

Derbyniodd yr ysgol grant gan y Cyngor Prydeinig i hyrwyddo cysylltiadau tramor. Fel rhan o'r prosiect, croesawyd i'r athrawon o ysgolion yn Iwerddon, Ffrainc a'r Ffindir. Treuliodd y criw dridiau yn yr ardal. Cafwyd croeso swyddogol iddynt gan Mr Eifion Evans, y Cyfarwyddwr Addysg ynghyd â'r Cynghorydd Ceredig Davies, yr Aelod Cabinet dros Addysg yngh Ngheredigion. Treuliwyd amser yn ysgolion Cwmpadarn ac ym Mhenrhyn-coch a chafodd yr ymwelwyr gyfle i gymryd rhan mewn gwasanaeth ysgol cyn cael cyflwyniad pwerbwynt gan y Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco. Cyflwynwyd anrhegion iddynt, sef darn o waith gwnïo o fap yr ysgol ynghyd âg eitemau o Gymru. Teithiodd yr Athrawon i fyny i Bentre Portmeirion a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen yng Nghorris. Ar y diwrnod olaf, cafwyd ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol a chyfle i flasu cinio ysgol ym Mhenrhyn-coch. Yn ystod y prynhawn, teithiodd aelodau o'r Cynghorau i lawr i Ysgol Cwmpadarn i gwrdd â Mr Mark Williams, ein Aelod Seneddol ac i gael Cynhadledd Fideo ag ysgol yn Ffrianc. Ym mis Mai byddwn yn teithio i Brive yn Ffrainc i ymweld â'r ysgol yno cyn teithio gyda phedwar ar bymtheg o ddisgyblion i Iwerddon.

## Chwaraeon Anabledd

Aeth Hafwen i lawr yn ddiweddar i Ganolfan y "Cage" yn y Brifysgol. Bu'n cymryd rhan mewn sesiwn sgiliau pêl-droed. Trefnwyd y sesiynau i ddod â disgyblion amrywiol at ei gilydd. Buont yn dysgu sgiliau yn ystod y bore ac yna cafwyd cyfle i gael gêmau syml. Cafwyd diwrnod da iawn gyda Hafwen (a Mrs Hicks) yn cael llawer o hwyl.

## Pantomeim

Bu holl ddisgyblion yr ysgol i lawr yn Theatr y Werin i wylio'r pantomeim "Madog" gan gwmni Mega. Braf oedd cael cyfle i wylio'r holl sioe eleni gan i'r tywydd dorri ar ein mwynhad y llynedd! Cafwyd stori yn seiliedig ar Madog yn hwylio tua America. Cafwyd mwynhad mawr a'r plant yn cymryd rhan yn y gweiddi a'r sgrechian.

## Cinio'r Gymuned

Aeth aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco i sgwrsio â rhai o'r henoed sy'n mynychu Cinio'r Gymuned. Bu'r criw yn sôn am yr hyn fydd yn digwydd yn yr ysgol yn ystod Tymor y Nadolig ac i estyn gwahoddiad iddynt i'r gweithgareddau hyn. Mae hyn yn gyfle i'r disgyblion i hyrwyddo gwaith yr ysgol ac i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

## Ffair Aeaf

Aeth criw bach o ddisgyblion yr ysgol ati i gystadlu yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Llwyddwyd i ennill tair o wobrau. Daeth Seren Jenkins yn gyntaf ar greu pyped Nadolig, Florrie Lithgow yn drydedd gyda chracer bwytadwy a Sian Jenkins yn drydedd gyda chloch wedi ei greu allan o "salt dough."



Disgyblion a fu'n cystadlu yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd yn arddangos rhai o'r eitemau a grewyd ganddynt.







FFENESTRI
IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
*Sefydledig dros 30 mlynedd*
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
E W R
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

### Cyngerdd Nadolig

Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu gwaith caled yn y Sioeau Nadolig. Cafwyd perfformiadau i'r Gymuned ar y prynhawn dydd Mawrth a chafwyd criw da yn dod i wylio. Diolch i bawb a ddaeth. Cafwyd tair perfformiad wedi'r nos. Y sioeau eleni oedd "Nadolig yn Rwla" gan y Cyfnod Sylfaen a "Hon yw ei Stori ef" gan Gyfnod Allweddol 2. Daeth criw dda iawn i wylio'r disgyblion wrthi yn perfformio. Diolch i bawb a fu ynghlwm yn y sioeau. Diolch i'r rhieni am eich gwaith yn paratoi y gwisgoedd ac yn cefnogi gyda dysgu'r geiriau.

### Cyngerdd Ger-y-lli

Ar nos Wener cyntaf y mis, bu côr yr ysgol yn cymryd rhan mewn cyngerdd Nadolig ym Eglwys Llanbadarn. Cyngerdd Nadolig Côr Ger-y-lli oedd yr achlysur a gwelwyd yr Eglwys yn llawn. Yn cymryd rhan hefyd gwelwyd Côr Ysgol Llanilar. Bu'r disgyblion yn canu tair cân fel côr yn ystod y cyngerdd ac yna cyfunodd y tri chôr fel un ar y diwedd i ganu Siahamba. Diolch i Gôr Ger-y-lli am roi y cyfle i'r Côr i gymryd rhan. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi y noson ac i'r rhieni am ddod i wrando. Codwyd yn agos i £900 yn ystod y noson ar gyfer achosion da.

### Pampered Chef

Cynhaliwyd noson arbennig i Rieni a Ffrindiau'r ysgol gan y cwmni 'Pampered Chef'. Noson oedd hi i wylio dwy o athrawon yr Ysgol,sef Rhian Cory a Bethan Evans yn ceisio dilyn cyfarwyddiadau a choginio byrfwyd i'r Nadolig. Cafodd y ddwy gymorth (diolch fyth!) gan ddwy riant, sef Sioned Martin a oedd wedi trefnu y noson a Catrin Galbraith. Prynodd pawb rywbeth a fyddai o ddefnydd yn eu ceginau adref a chafwyd Mins Peis a 'Mulled Wine' blasus gan pwyllgor y PTA. Noson arbennig

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda gan holl staff a phlant yr ysgol a diolch i bawb eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

## YSGOL CRAIG YR WYLFA

Ymunodd rhai o blant y Cyfnod Sylfaen gyda phlant Cylch Meithrin y Borth mewn gweithdy gyda 'Blue Island Ceramics' er mwyn creu 'hand prints' ar deilsen. Y bwriad yw arddangos y rhain o amgylch yr ysgol fel cofnod o'u presenoldeb yn yr ysgol ac er mwyn creu awyrgylch o 'berthyn' i le, ac fel atgof i'r plant pan fyddant yn ymweld â'r ysgol wedi iddynt adael.

Cynhaliwyd 'Cinio i'r Gymuned' llwyddiannus arall ar Ragfyr 7fed gyda 17 o drigolion y pentref yn troi allan. Cafwyd cinio bendigedig wedi ei baratoi gan ein Cogydd Wendy Jones, a mins peis a phaned i ddilyn. Fe arhosodd yr ymwelwyr am y prynhawn er mwyn ymlacio a mwynhau perfformiad o'n sioe Nadolig. Cafodd pawb brynhawn hyfryd gan orffen gyda 'medley' o garolau er mwyn i bawb cael ymuno yn y canu.

Diolch o galon i Mari Turner o gwmni Theatr Arad Goch am weithio mor galed gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Mae'r plant wedi mynychu cyfres o weithdai gyda Mari er mwyn gwella eu sgiliau fel actorion ifanc, gyda phwyslais ar wella safon eu iaith lafar Cymraeg. Edrychwn ymlaen yn arw at ei hymweliad nesaf.

Hoffai'r ysgol longyfarch a datgan ei diolch i Bwyllgor Carnifal y Borth am drefnu llu o weithgareddau hwylus yn ystod wythnos y carnifal. Derbyniodd yr ysgol siec am £1,000 gan bwyllgor y carnifal yn ei noswaith o ddathlu yn ddiweddar.

Cafwyd casgliad 'Bags 2 School' yn ddiweddar a gododd dros £200 i'r ysgol. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu.





Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed 5 bob ochr Ysgol Craig yr Wylfa a fu'n cystadlu yn rownd Sirol yr Urdd yn ddiweddar yng Ngwersyll Llangrannog. Daethant yn bedwerydd yn y gystadleuaeth. Ardderchog!



Dyma rai o'r plant yn mwynhau eu bisgedi 'Pudsey' ar ddiwrnod Plant Mewn Angen.



# TASG Y TINCER



Elin Gore

Mae'n siŵr bod y rhan fwyaf ohonoch chi erbyn hyn wedi gosod eich addurniadau Nadolig yn eich cartrefi, ac yn yr ysgol. Rwy'n gwybod bod plant Noddfa, Bow Street, yn brysur ers wythnosau'n gwneud addurniadau arbennig iawn. Ydech chi wedi gweld y goeden Nadolig sydd ar y sgwâr yn Aberystwyth, ac wedi sylwi ar y goleuadau'n disgleirio? Mae pawb mor brysur yn paratoi ar y diwrnod mawr, ond mae'n bwysig iawn ein bod i gyd yn cofio pam ein bod yn dathlu'r Nadolig a pham ein bod yn rhoi a derbyn anrhegion.

Diolch i bawb a fu wrthi'n lliwio'r dorch Adfent mis diwethaf, yn arbennig y rheiny ohonoch fu'n lliwio'r dasg am y tro cyntaf. Da iawn, wir! Dyma'r enwau: Lois Medi, Dyffryn Cain, Llandre; Nuala Ellis-Jones, Brynawel, Capel Bangor; Gwenno Griffiths, Tynllechwedd Bach, Bow Street; Gwenno ac Owain Jobbins, Cân y Wawr, Capel y Morfa, Y Borth; Lili Fflur Lewis, 11 Broncynfelin, Clarach; Elin Gore, Troedrhiwgwynau, Comins-coch; Moana Gwynne Raggett, Felinwern, Y Borth; Rhodri Jones, Tŷ'r Banc, Bont-goch; Ceri Garratt, 12 Y Ddôl Fach, Penrhyn-coch; Elen Morgan, Llys Alaw, Bow Street. Roedd eich lluniau'n hyfryd, ond ti, Elin Gore sy'n mynd â'r wobr y tro hwn. Hoffais y fflam oren ar y gannwyll! Daliwch ati, bawb.

Y tro hwn, beth am liwio llun y plant yn canu? Tybed pa garol yw hi? A oes gennych chi eich hoff garol? Mae'n siŵr eich bod chithau hefyd wedi bod wrthi'n dysgu carolau a chaneuon Nadolig yn yr ysgol ac yn yr ysgol Sul. Wyddoch chi fod gennym yma yng Nghymru fath arbennig o garolau, sef carolau'r Plygain? Roedd y caneuon hyn arfer cael eu canu mewn eglwysi yn gynnar, gynnar ar fore dydd Nadolig. Erbyn hyn, mae sawl eglwys yn cynnal gwasanaeth lle mae carolau'r Plygain yn cael eu canu gan bobl a phlant o bob oed, gan gynnwys Penrhyn-coch, wrth gwrs. Does dim llawer ohonyn nhw'n cael eu cynnal yn y bore bach, diolch i'r drefn, ond rwy wrth fy modd efo rhai o'r hen hen garolau hyn.

Anfonwch eich llun at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn dydd Calan (Ionawr 1af). Nadolig llawen i bob un ohonoch chi, a ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Oed

Rhif ffôn

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 344 | RHAGFYR 2011

tachwedd.indd 20 13/12/11 10:48:52